



Beth sy'n gwneud strategaeth gwrthdodi yn effeithiol?

gan Peter Kenway, Carla Ayrton, Charithra Chandran ac Irene Tortajada

Medi 2022

Ein Cenhadaeth

Mae **Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru** yn helpu i wella'r broses o lunio polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i rhoi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio dystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi dystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol sy'n gallu helpu i lywio a gwella polisi, cael atynt a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall dystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan, sef www.wcpp.org.uk

Mae'r Sefydliad Polisi Newydd (NPI) yn felin drafod annibynnol, a sefydlwyd ym 1996, sydd wedi cynhyrchu tua 150 o adroddiadau ar dlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder economaidd. Gan weithio mewn partneriaeth ag elusennau, llywodraethau, undebau llafur a sefydliadau busnes, mae adroddiadau'r NPI yn rhoi darlun eang o bwnc, wedi'i gasglu o dystiolaeth a dadansoddiad manwl, a gynlluniwyd i dynnu sylw at flaenoriaethau ar gyfer polisi ac ymarfer. Mae gwaith yr NPI ar dlodi wedi cwmpasu pob rhan o'r DU ar lefel genedlaethol, ranbarthol, dinesig a sirol, yn ogystal ag ar y lefel ranbarthol mewn mannau eraill yn Ewrop.

Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd ym 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi amlygu ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi allu ffynnu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

Cynnwys

Crynodeb	4
Pennod 1: Cyflwyniad	5
Gair am yr adroddiad hwn	5
Cyflwyniad i'r astudiaethau achos	7
Rhai o nodweddion strategaeth dda: awgrymiadau o ymchwil blaenorol	10
Pennod 2: Pum strategaeth gwrth-dlodi	12
Astudiaeth Achos 1: Toronto, Canada: 'TO Prosperity': Toronto Poverty Reduction Strategy, 2015-2035	13
Astudiaeth Achos 2: Baden-Württemberg, Yr Almaen: 'Strong children, rich chances', 2020	18
Astudiaeth Achos 3: Castilla La Mancha, Sbaen: Strategaeth yn erbyn Tlodi ac Anghydraddoldeb Cymdeithasol, 2017-2020	21
Astudiaeth Achos 4: Seland Newydd: The Child Poverty Reduction Act, 2018	25
Astudiaeth Achos 5: Yr Alban: The Child Poverty (Scotland) Act, 2017	30
Pennod 3: Dadansoddiad o'r strategaethau gwrthdlodi	34
Nodweddion allweddol y pum strategaeth	34
Goblygiadau ar gyfer nodweddion strategaeth dda	38
Rôl y strategaeth gwrthdlodi ei hun	39
Pennod 4: Nodweddion strategaeth gwrthdlodi effeithiol	42
Cyfeiriadau	45
Atodiad 1: Rôl pobl sydd â phrofiad byw o dlodi	47
Atodiad 2: Dogfennau yr ymgynghorwyd â nhw	51
Cydnabyddiaethau	53

Crynodeb

- » Mae'r adroddiad hwn yn datblygu fframwaith i asesu'r hyn sy'n gwneud strategaeth gwrthdlodi yn effeithiol. Mae'n canolbwyntio ar y strategaeth ei hun a'r gwerth y mae'n ei ychwanegu, yn ogystal â'r camau gweithredu a mentrau gwrth-dlodi sy'n eistedd oddi tani. Mae astudiaeth ategol yn canolbwyntio ar asesu effaith polisiâu a rhaglenni lleihau tlodi eu hunain.
- » Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ymchwil i bum strategaeth gwrthdlodi sy'n cael eu dilyn ar hyn o bryd gan lywodraethau cenedlaethol Seland Newydd a'r Alban; llywodraethau rhanbarthol Baden-Württemberg (yr Almaen) a Castilla La Mancha (Sbaen); a llywodraeth dinas Toronto (Canada).
- » Yn seiliedig ar yr achosion hyn, deawn i'r casgliad mai rôl strategaeth gwrthdlodi yw gweithredu ar dlodi o fewn cyd-destun lle nad yw'r rhai sydd am weithredu bob amser yr un bobl a sefydliadau â'r rhai sy'n gallu gweithredu.
- » Gan ddefnyddio hefyd ymchwil arall i'r hyn sy'n gyfystyr â strategaeth dda, cynigiwn y dylai strategaeth gwrthdlodi sydd wedi'i chynllunio'n dda:
 1. Gynnig fframwaith sy'n darparu modd i alluogi neu orfodi gweithredu.
 2. Egluro beth y mae'n anelu at ei gyflawni a dim ond yn cynnwys camau gweithredu sy'n gwasanaethu'r perwyl hwnnw.
 3. Cydnabod, hyd nes y bydd menter gwrthdlodi wedi cael amser i ymgartrefu, mai ei chynllunio a'i gweithredu yw'r hyn sydd bwysicaf.
 4. Cydnabod bod cynllunio a gweithredu effeithiol yn gofyn am ddealltwriaeth, cydlynu ac adnoddau da.
 5. Cydnabod bod gwneud i rywbeth ddigwydd yn werthfawr ynddo'i hun.
 6. Gallu dysgu wrth iddo fynd yn ei flaen, gyda mesurau canlyniadau yn chwarae rhan gynyddol.
 7. Bod yn gyfrifoldeb i weinidog sydd â digon o statws i sicrhau bod y strategaeth yn cael ei rhoi ar waith.
- » Mae'r adroddiad hefyd yn cofnodi'r hyn a ganfuwyd am rolau'r rhai sydd â phrofiad byw o dlodi yn y pum strategaeth.

1. Cyflwyniad

Comisiynwyd y Sefydliad Polisi Newydd (NPI) gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) i helpu i ddatblygu fframwaith ar gyfer asesu effeithiolrwydd strategaethau gwrthdlodi. Mae hyn yn rhan o brosiect ehangach sy'n cynnwys ail astudiaeth, gan y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol yn Ysgol Economeg Llundain (LSE), sy'n canolbwyntio ar asesu effaith gwahanol bolisiau a rhaglenni gwrthdlodi rhyngwladol. Bwriad y prosiect yw hysbysu Llywodraeth Cymru yn ymarferol mewn perthynas â'i pholisi tlodi ac allgáu cymdeithasol.

Mae'r bennod gyntaf hon yn ymdrin â'r canlynol:

- Strwythur y ddadl;
- Y dewis o astudiaethau achos, gan gynnwys barn gychwynol am rai o'u nodweddion allweddol;
- Dull o ymdrin â'r ymchwil, gan gynnwys y fframwaith a ddefnyddiwyd ar gyfer adolygu'r astudiaethau achos; a
- Chrynodeb o'r prif bwyntiau o dair astudiaeth flaenorol sy'n cynnig nodweddion strategaeth 'dda'.


Gair am yr adroddiad hwn

Ffocws ar y strategaeth gwrthdlodi ei hun

Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar y strategaeth gwrthdlodi ei hun, yn hytrach na'r camau gweithredu a'r mentrau gwrthdlodi unigol sy'n eistedd o dan (neu o fewn) y strategaeth.

Fel y soniwyd uchod, mae'r adolygiad o raglenni ac ymyriadau rhyngwladol yn destun adran o'r prosiect a gynhaliwyd gan yr LSE. Mae'r gwahaniaeth hwn, rhwng y strategaeth ei hun a'r camau gweithredu a mentrau sy'n eistedd oddi tani, yn ddefnyddiol gan ei fod yn caniatáu ystyried ffyrdd mwy neu lai effeithiol o sicrhau bod mentrau lluosog yn cael eu darparu ar draws meysydd polisi amrywiol, gyda gwahanol bartneriaid cyflawni, a graddau amrywiol o reolaeth neu asiantaeth dros weithredu'r mentrau hynny. Mae'n cydnabod bod strategaethau wedi'u cysylltu â'u polisiau a'u rhaglenni cyfansoddol ond y gallant ac y dylent ychwanegu gwerth o ran pennu eu tebygolrwydd o lwyddo.

Fodd bynnag, mae amlygu'r gwahaniaeth hwn yn golygu na ellir tybio y gellir barnu effeithiolrwydd strategaeth gwrthdlodi drwy lwyddiant (sut bynnag y'i diffinnir) ei chamau gweithredu a'i mentrau. Mae hwn yn gwestiwn ymarferol i'r rhai sy'n gyfrifol am strategaeth gwrthdlodi benodol ac yn her fethodolegol i'r astudiaeth hon. Mae bodloni'r her honno wedi dylanwadu ar strwythur y ddadl a ffurf yr adroddiad.



Strwythur y ddadl

Mae dau fan cychwyn i'r ddadl a ddatblygwyd yn yr adroddiad hwn:

- rhestr fer o'r hyn y mae tair astudiaeth flaenorol wedi'i nodi fel nodweddion strategaeth 'dda', a nodir isod ym mhennod 1; a
- thystiolaeth y strategaethau eu hunain, a nodir ym mhennod 2.

Yna dadansoddwn dystiolaeth y strategaethau ym mhennod 3:

- yn gyntaf, i geisio eu lleihau i'w nodweddion allweddol neu hanfodol, gan ganolbwyntio ar y rhannau ohonynt nad ydynt yn dibynnu ar gynnwys y camau gweithredu a'r mentrau; ac
- yn ail, i fireinio'r rhestr o nodweddion sy'n gwneud strategaeth 'dda'.

Dilynir hyn gan ddadl derfynol sy'n nodi:

- y rôl y mae'r strategaeth ei hun yn ei chwarae, ar wahân i'w chamau gweithredu a'i mentrau; a
- pha gyfyngiadau ac amodau sydd angen bod ar waith er mwyn sicrhau ei bod yn chwarae'r rôl honno'n dda.

Mae'n deg meddwl am y syniad hwn, o strategaeth sy'n chwarae ei rôl yn dda, fel strategaeth sy'n effeithiol.

Daw Pennod 4 i ben drwy gyflwyno rhestr o'r nodweddion y dylai strategaeth gwrthdlodi effeithiol feddu arnynt.

Ni fwriedir i'r casgliad a wnaed yma am rôl strategaeth gwrth-dlodi fod yn berthnasol i strategaethau polisi cymdeithasol yn gyffredinol. Os yw strategaethau gwrthdlodi yn anarferol, byddai hynny'n debygol o ddod o natur tlodi a'r wleidyddiaeth o gymryd camau i fynd i'r afael ag ef.

Camau'r ymchwil

Bu pedwar prif gam i'r ymchwil, wedi'u gwasgaru dros gyfnod o bum mis, gan ddechrau ym mis Tachwedd 2020:

1. Cynhaliwyd astudiaeth ddesg i gasglu dogfennau swyddogol perthnasol ac adolygiadau annibynnol yn ymwneud â'r astudiaethau achos.
2. Cysylltwyd ag arbenigwr ar gyfer pob un o'r astudiaethau achos a chynhaliwyd cyfweiliad gyda hwy i lenwi'r bylchau o'r dogfennau a dyfnhau ein dealltwriaeth o'r strategaeth. Roedd y cyfweiliadau hyn yn rhoi gwybod sut mae'r strategaethau wedi gweithredu'n ymarferol yn hytrach na sut maent yn gweithredu ar bapur.
3. Arweiniodd dadansoddi a myfyrio ar yr ymchwil at ysgrifennu adroddiad drafft a fu'n destun adolygiad cymheiriaid gan arbenigwyr polisi tlodi yng Nghymru a gwyddor gweithredu.
4. Yn dilyn adolygiad gan gymheiriaid, ysgrifennwyd adroddiad terfynol drafft cyn ei gwblhau a'i gyflwyno i lywodraeth Cymru.

Ar ôl cwblhau'r ymchwil, ac ysgrifennu'r adroddiad drafft, cytunwyd y dylai'r adroddiad terfynol gynnwys gwybodaeth am y rôl a chwaraeir gan bobl â phrofiad byw o dlodi – i'r graddau yr oedd deunydd o'r fath eisoes wedi'i nodi yn ystod y cyfnod ymchwil. Felly, cyflwynir gwybodaeth am rôl pobl sydd â phrofiad byw o dlodi yn atodiad 1. Ni thrafodwyd rôl pobl â phrofiad byw o dlodi gydag unrhyw un o'r arbenigwyr strategaeth unigol.

Dylid pwysleisio dau beth oherwydd yr amserlen fer ar gyfer yr ymchwil a'r un cyfweiliad arbenigol a gynhaliwyd ar gyfer pob astudiaeth achos.

Yn gyntaf, mae'r astudiaethau achos hyn yn ffynhonnell dystiolaeth i helpu i fyfyrion ar yr hyn a allai fod yn strategaeth gwrthdlodi effeithiol. Ni ddylid defnyddio'r adroddiad hwn fel ffynhonnell wybodaeth heb ei chadarnhau am y strategaethau hyn. Yn ail, er ein bod wedi dod i gasgliadau am y strategaethau hyn at ddibenion yr astudiaeth hon, nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio eu gwerthuso, na rhoi barn. At hynny, lle rydym yn mynegi barn am agweddau ar y strategaethau hyn, mae'r rhain i'w deall fel ein barn ein hunain ac ni ddylid eu priodoli i unrhyw un o'r arbenigwyr.

Cyflwyniad i'r astudiaethau achos

Y dewis o astudiaethau achos

Y sylfaen ymchwil ar gyfer yr astudiaeth hon yw pum strategaeth gwrthdlodi neu leihau tloedi, yng Nghanada, yr Almaen, Sbaen, Seland Newydd a'r Alban. O'r pump, mae dwy ohonynt yn strategaethau rhanbarthol (talaith Baden-Württemberg yn ne-orllewin yr Almaen a rhanbarth Castilla La Mancha yng nghanol Sbaen); mae dwy'n strategaethau cenedlaethol (yr Alban a Seland Newydd); ac un yw strategaeth ddinas (Toronto yng Nghanada). Roedd y pum strategaeth i gyd yn weithredol yn 2020. Dechreuodd yr hynaf ohonynt yn 2015. Mae gan bob un ohonynt ddogfennau clir a manwl, gan gynnwys cynllun gweithredu gyda dangosyddion neu dargedau.

Roedd y broses o ddethol strategaethau yn adlewyrchu sawl ffactor gan gynnwys tebygrwydd y diriogaeth a'i llywodraeth i rai Cymru, argaeledd dogfennau ac argaeledd arbenigwr a oedd â rhywfaint o wybodaeth fanwl am y strategaeth. Fel 'rhanbarthau' gwlad gwbl annibynnol, Baden-Württemberg (BW), Castilla La Mancha (CLM) a'r Alban sydd agosaf mewn statws i Gymru. Yn economaidd, mae (BW) yn wahanol iawn i Gymru tra bod CLM yn agos ati.

Mae gan Toronto, er ei bod yn ddinas, boblogaeth debyg o faint i Gymru. Yr Alban a CLM sydd agosaf at Gymru o ran pwerau perthnasol, neu ddiffyg hynny. Fel gwladwriaeth gwbl annibynnol, mae Seland Newydd (NZ) mewn sefyllfa wahanol iawn. Fodd bynnag, mae profiad y DU o wynebu tloedi wedi dylanwadu ar ei strategaeth a bydd ei sefydliadau'n gyfarwydd i gynulleidfa yn y DU.

Er ein bod yn bwriadu dewis astudiaethau achos lle'r oedd pwerau ffurfiol y llywodraeth yn debyg i bwerau Cymru, ni fu hyn mor bwysig â'r disgwyl. Y rheswm am hyn yw bod y strategaeth ei hun (hynny yw, ar wahân i'r camau gweithredu a mentrau gwrthdlodi penodol sy'n eistedd oddi tani) mewn rhai ffyrdd yn ymwneud â'r bylchau rhwng y pwerau hynny, neu mewn geiriau eraill, am elfennau anffurfiol peiriannau'r llywodraeth.

Golwg cyntaf ar rai nodweddion allweddol

Un o'r heriau wrth ddirnad yr adroddiad hwn yw ffurfio darlun o'r pum gwahanol strategaeth. Mae Pennod 2 wedi'i neilltuo i ddisgrifiad llawn o bob un ohonynt. Dangosir crynodeb byr o nodweddion allweddol y strategaethau yn Nhabl 1.



Tabl 1. Crynodeb o nodweddion allweddol y pum strategaeth astudiaeth achos

Astudiaeth achos 1: Toronto	<p>Poblogaeth: y mwyaf o ddinasoedd Canada gyda phoblogaeth o 2.7 miliwn o bobl.</p>
	<p>Math o strategaeth a chwmpas: wedi'i harwain a'i gweithredu'n bennaf gan gyngor y ddinas, trefnir y strategaeth o amgylch pum thema sef sefydlogrwydd tai, mynediad at wasanaethau, tegwch cludiant, mynediad at fwyd a swyddi o ansawdd ac incymau y gellir byw arnynt.</p>
	<p>Amserlen: 2015–2035, gyda chynlluniau gweithredu pedair blynedd (diweddaraf, 2019–23).</p>
	<p>Diffiniad o dlodi: ddim yn berthnasol gan nad yw'r strategaeth yn anelu at leihau cyfradd tlodi. Mae mesur tlodi swyddogol Canada yn un sy'n seiliedig ar y farchnad, sy'n adlewyrchu cost basged o nwyddau a gwasanaethau sy'n cynrychioli safon byw sylfaenol.</p>
	<p>Targedau: nid yw'r strategaeth a'i chynllun gweithredu yn cynnwys llawer o dargedau mesuradwy, os o gwbl – fodd bynnag, mae'r pum thema yn cynrychioli 'cyfarwyddiadau teithio' dymunol.</p> <p>Monitro: rhaglen i ariannu a gweithredu Fframwaith Monitro a Gwerthuso ar gyfer y strategaeth lleihau tlodi (PRS) yw un o'r gweithgareddau a nodwyd yn y cynllun gweithredu presennol. Bu rhai mentrau blaenorol yn destun gwerthusiad ansoddol.</p>
Astudiaeth achos 2: Baden-Württemberg	<p>Poblogaeth: y drydedd fwyaf o daleithiau'r Almaen gyda phoblogaeth o 11 miliwn o bobl.</p>
	<p>Math o strategaeth a chwmpas: strategaeth llywodraeth ranbarthol gyda'r un nod o hyrwyddo 'rhwydweithiau atal' lleol (cymdeithasau lleol, gwirfoddol gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill) i weithio gyda phlant o deuluoedd tlawd i wella eu cyfleoedd i ddatblygu.</p>
	<p>Amserlen: 2020.</p>
	<p>Diffiniad o dlodi: ddim yn berthnasol gan nad yw'r strategaeth yn anelu at leihau cyfradd tlodi. Mae mesur tlodi swyddogol yr Almaen yn un incwm isel (islaw 60% o'r canolrif cenedlaethol).</p> <p>Targedau: y targed mesuradwy ar gyfer y strategaeth yw nifer y dinasoedd a'r rhanbarthau lleol (allan o gyfanswm o 44) sy'n cyflwyno rhwydweithiau atal.</p> <p>Monitro: mae swyddfa ystadegol y dalaith wedi cyhoeddi astudiaeth a gynlluniwyd i nodi'r ffactorau sy'n debygol o arwain at gyflwyno rhwydwaith atal yn llwyddiannus.</p>
Astudiaeth achos 3: Castilla La Mancha	<p>Poblogaeth: y drydedd fwyaf o 17 rhanbarth ymreolaethol Sbaen gyda phoblogaeth o ddwy filiwn o bobl.</p>
	<p>Math o strategaeth a chwmpas: cynllun gan y llywodraeth ranbarthol gyda 58 o 'bwyntiau gweithredu' yn cynnwys: mesurau lliniarol yn erbyn tlodi; mesurau ataliol yn erbyn allgáu a bod yn agored i niwed; mesurau effeithiolrwydd a llywodraethu.</p>
	<p>Amserlen: 2017–2020.</p>
	<p>Diffiniad o dlodi a ddefnyddiwyd: mae'r strategaeth yn dilyn cysyniad eang o dlodi, yn debyg i allgáu cymdeithasol. Fodd bynnag, mae ei thargedau'n gulach ac yn ymwneud ag incwm isel (islaw 60% o'r canolrif), incwm isel difrifol (islaw 30% o'r canolrif) ac amddifadedd materol.</p> <p>Targedau: targedau mesuradwy ar gyfer risgiau: tlodi ac allgáu cymdeithasol; tlodi difrifol; plant ag amddifadedd materol difrifol; tlodi ynni; dwysedd cyflogaeth isel.</p> <p>Monitro: adroddiad canolraddol, llywodraethol (nad yw'n annibynnol) ar yr effaith yn 2017; adroddiad gwerthuso terfynol (ar ôl i'r strategaeth ddod i ben yn 2020) ar y gweill.</p>

Astudiaeth achos 4: Seland Newydd	<p>Poblogaeth: pum miliwn o bobl.</p>
	<p>Math o strategaeth a chwmpas: strategaeth llywodraeth genedlaethol, sef un elfen – gyda ffocws a blaenoriaeth – o fewn strategaeth lles ehangach. Mae'r Ddeddf Lleihau Tlodi Plant (2018) yn rhagflaenu ac yn sail i elfen tlodi'r strategaeth ehangach.</p>
	<p>Amserlen: 2018 ymlaen (gydag isafswm hyd ymhlyg o 10 mlynedd).</p>
	<p>Diffiniad o dlodi: dim ond mesurau sy'n ymwneud ag incwm isel (islaw 50% o incwm canolrifol y flwyddyn gyfredol; llai na 50% o incwm canolrifol blwyddyn sefydlog) ac amddifadedd materol y mae'r Ddeddf Lleihau Tlodi Plant yn eu cynnwys.</p>
	<p>Targedau: pedwar mesur sylfaenol o dlodi a chaledi y mae'n rhaid i'r llywodraeth osod targedau ar eu cyfer, yn ogystal â thargedau pellach ynghylch tai, addysg ac ysbytai y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt hefyd, ond nid bob blwyddyn.</p> <p>Monitro: mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol adrodd yn ffurfiol am gynnydd yn erbyn canlyniadau'r strategaeth. Cefnogir monitro drwy ddadansoddi a gynhelir gyda'r Trysorlys, a gynlluniwyd i asesu a yw'r strategaeth ar y trywydd iawn.</p>
Astudiaeth achos 5: Yr Alban	<p>Poblogaeth: 5.5 miliwn.</p>
	<p>Math o strategaeth a chwmpas: strategaeth llywodraeth ddatganoledig, sef llywodraeth yr Alban yn bennaf, gyda chydweithrediad gan lywodraeth leol a chyfres o bartneriaid, gan gynnwys elusennau a phrifysgolion. Mae'r strategaeth yn Ddeddf Seneddol gyda thargedau wedi'u gosod ar gyfer 2030. Bydd cynllun gweithredu gyda manylion polisi yn cael ei gyhoeddi bob pedair blynedd.</p>
	<p>Amserlen: 2017 ymlaen (gydag isafswm cyfnod ymhlyg hyd at 2030).</p>
	<p>Diffiniad o dlodi: trothwyon incwm isel sy'n gysylltiedig ag incwm canolrifol ledled y DU (islaw 60% y flwyddyn gyfredol; llai na 60% blwyddyn sefydlog; islaw 70% ac amddifadedd materol). Mae mesur 'tlodi parhaus' i'w ddiffinio o hyd.</p>
	<p>Targedau: caiff cynnydd yn erbyn pedwar targed a bennwyd ar gyfer 2030, ar gyfer y pedwar mesur tlodi a ddiffinnir uchod, ei fonitro'n barhaus.</p> <p>Monitro: ar wahân i'r targedau, mae adroddiad cynnydd cyflawni hefyd yn edrych ar bob polisi a rhaglen i roi cynnydd hyd yma, gyda monitro a gwerthuso yn ehangach na'r prif dargedau. Sefydlwyd Comisiwn annibynnol i fonitro cynnydd a chynghori Gweinidogion ar dlodi ac anghydraddoldeb.</p>

Rhai o nodweddion strategaeth dda: awgrymiadau o ymchwil blaenorol

Mae llenyddiaeth fawr ar yr hyn sy'n gwneud strategaeth dda, boed ar gyfer y llywodraeth neu i fusnes. Gall casgliadau o lenyddiaeth o'r fath fod yn graff, yn enwedig pan fyddant yn cyfeirio at yr heriau y mae'n rhaid eu hwynebu wrth ddatblygu strategaeth dda. Er bod adolygiad o'r llenyddiaeth y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, rydym wedi manylu ar dri darn o waith a oedd yn arbennig o ddefnyddiol wrth arwain yr adolygiad hwn, a grynhoir yn Nhabl 2. Y tri yw:

1. Adolygiad yn 2014 i strategaethau gwrthdlodi rhyngwladol a gynhaliwyd gan NPI (MacInnes et al., 2014);
2. Adolygiad yn 2016, a gynhaliwyd gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru (PPIW), i'r hyn sy'n gwneud strategaeth llywodraeth dda (PPIW, 2016); ac
3. Adroddiad yn 2004 gan Swyddfa'r Cabinet, a nododd nodweddion strategaethau gorau'r llywodraeth fel rhan o'i *Strategy Survival Guide* (Swyddfa'r Cabinet, 2004).

Cyflwynir Tabl 2 o dan bum pennawd, sef rhanddeiliaid allanol, blaenoriaethau, cyd-destun, arweinyddiaeth, arfer a monitro'r llywodraeth. Y pwyntiau allweddol ar yr hyn sy'n gwneud strategaeth dda yw:

- Roedd cytundeb cryf ar draws yr astudiaethau am rôl rhanddeiliaid allanol, y dadleuir y dylid eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chynllunio'r strategaeth hyd at ei gweithredu a'r tu hwnt. Mae cyfathrebu'n bwysig drwyddi draw.
- Mae'r astudiaethau hefyd yn cytuno ynghylch pwysigrwydd monitro ac (er mwyn sicrhau effeithiolrwydd) pennu amcanion. Gall hyn fod i ddal y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif (NPI) neu i lywio'r addasiadau angenrheidiol (Swyddfa'r Cabinet).

- Mae dwy o'r tair astudiaeth (PPIW, Swyddfa'r Cabinet) – ond nid yr un a edrychodd ar strategaethau gwrthdlodi rhyngwladol (NPI) – yn pwysleisio'r angen i bennu blaenoriaethau.
- Mae astudiaeth NPI yn pwysleisio bod angen:
 - ymrwymiad lefel uchel, i roi arweiniad ac ysgogiad;
 - llywodraethu annibynnol, er mwyn sicrhau dilyniant pan fydd arweinwyr yn newid; a
 - chyfrifoldeb ac atebolrwydd clir am weithredu ar draws y llywodraeth.
- Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn awgrymu pryder ynghylch pa mor ddifrifol yw llywodraethau pan fyddant yn creu strategaethau gwrthdlodi – a fydd yr hyn a addawyd yn cael ei gyflawni mewn gwirionedd?
- Mae astudiaeth Swyddfa'r Cabinet, ar y llaw arall, yn pwysleisio'r angen am ddealltwriaeth glir o'r sefyllfa bresennol a'r sefyllfa bosibl yn y dyfodol, a hefyd o effeithiolrwydd tebygol offerynnau polisi posibl a'r gallu sefydliadol i gyflawni'r polisiau hynny. Gellir ystyried ei fod yn ymwneud mwy â ph'un a yw'r hyn a addawyd yn cael ei gyflawni'n dda. Wrth alw am fuddsoddiad mewn sgiliau, mae adroddiad PPIW mewn lle tebyg, gan gyfeirio at yr angen am well capasiti sefydliadol er mwyn cyflawni'n dda.

Gellid crynhoi'r amodau ar gyfer strategaeth dda a ddistyllwyd o'r astudiaethau hyn fel **ymrwymiad lefel uchel, atebolrwydd, cyfranogiad a chyfathrebu, blaenoriaethu, deall a monitro**. Byddwn yn adolygu'r rhestr hon yn ddiweddarach yn yr adroddiad yng ngoleuni'r hyn y mae'r pum strategaeth astudiaeth achos a astudiwyd yn yr adroddiad hwn yn ei awgrymu am yr amodau hyn yn ymarferol.

Tabl 2. Rhai nodweddion awgrymedig strategaethau da

	Ffactorau sy'n gallu cynyddu'r siawns o lwyddo (NPI, 2014)	Nodweddion strategaethau da (PPIW, 2016)	Nodweddion strategaethau gwasanaeth cyhoeddus da (Swyddfa'r Cabinet, 2004)
Rhanddeiliaid allanol	Cynnwys mewn dylunio, gweithredu	Cydweithio, cyfathrebu	Datblygu gyda, cyfleu'n effeithiol i
Blaenoriaethau		Blaenoriaethu nodau	Bod yn glir am amcanion, blaenoriaethau a chyfaddawdau
Arweinyddiaeth	Ymrwymiad lefel uchel gan wleidyddion a gweision sifil Llywodraethu annibynnol		
Arfer y Llywodraeth	Atebolrwydd clir ar gyfer cyflawni Dolen i bolisi economaidd	Buddsoddi mewn sgiliau	Deall achosion, tueddiadau, cyfleoedd, bygythiadau, dyfodol Deall offeryn polisi ac effeithiolrwydd sefydliadol Bod yn greadigol – dylunio/darganfod posibiliadau newydd
Monitro	Monitro i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni	Gosod amcanion mesuradwy Defnyddio tystiolaeth i fonitro cynnydd	Mecanweithiau ar gyfer hyblygrwydd, yng ngoleuni profiad

2. Pum strategaeth gwrthdodi

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r pum astudiaeth achos. Cyflwynir y fframwaith cwestiynau a ddefnyddiwyd i adolygu'r astudiaethau achos isod yn nhabl 3. Atebwyd deg cwestiwn ar gyfer pob astudiaeth achos, yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r dogfennau strategaeth a restrir yn atodiad 2. Yna, gwiriwyd yr atebion hyn a llenwyd unrhyw fylchau yn ystod y cyfweiliadau gyda'r arbenigwyr.

Tabl 3. Y fframwaith deg cwestiwn a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaethau achos

Categori	Cwestiwn
Cyd-destun a gwreiddiau'r strategaeth	Pwy a'i cychwynnodd, pam, a beth aeth o'r blaen?
	Sut mae'r strategaeth ei hun yn ychwanegu gwerth, e.e., drwy gyflwyno rhywbeth newydd, blaenoriaethu rhywbeth sydd eisoes yn cael ei wneud, drwy wella cydgysylltu?
Cwmpas a chynllun y strategaeth	Beth yw nod y strategaeth a pha fathau o ganlyniadau y mae'n anelu atynt (e.e. lleihau tlodi; cefnogi pobl sy'n dlawd neu wedi'u hallgáu)?
	Pa bynciau y mae'n eu cynnwys a pham y cawsant eu dewis (e.e. am eu pwysigrwydd, neu am eu bod yn gweddu i'r nod)?
	Sut mae bod yn y strategaeth yn helpu i flaenoriaethu eitem/ rhaglen?
	A oes cyllideb arbennig ar gyfer rhaglenni wedi'i chynnwys yn y strategaeth?
Rhoi'r strategaeth ar waith	Camau gweithredu pwy sy'n cael eu cynnwys? Sut mae cydymffurfiaeth â'r cynllun gan gyrff y tu allan i'r llywodraeth (e.e. llywodraeth leol, elusennau, cwmnïau) yn cael ei chyflawni?
	A oes cynllun gweithredu a phwy o fewn y llywodraeth sy'n gyfrifol amdano?
Targedau a monitro	A oes targedau mesuradwy a phroses ar gyfer monitro a gwerthuso? Pa gyfranogiad allanol sydd yn hyn?
	I bwy y cyflwynir adroddiadau monitro neu werthuso swyddogol – a beth sy'n digwydd wedyn?

Yn yr hyn sy'n dilyn, mae pob astudiaeth achos wedi'i chyflwyno mewn fformat sy'n dilyn y pedwar categori a ddangosir yn Nhabl 3.

Astudiaeth Achos 1

Toronto, Canada: 'TO Prosperity': Strategaeth Lleihau Tlodi Toronto, 2015–2035

Cyflwyniad

Mae Toronto, prifddinas talaith fwyaf Canada (Ontario), yn ddinas o chwe miliwn o bobl a chanddi gyllideb weithredu flynyddol yn 2020 o CAN\$13.5bn (£7.7bn). Mae gan bob talaith yng Nghanaada strategaethau lleihau tlodi eu hunain ond gan fod gan y taleithiau'r pŵer i drethu incwm ac maent yn gyfrifol am bennu lefelau cymorth nawdd cymdeithasol, nid ydynt yn gymaryddion delfrydol ar gyfer Cymru, sydd â phwerau nawdd cymdeithasol a chyllidol cyfyngedig iawn. I'r gwrthwyneb, er bod gan Toronto bŵer i bennu lefel y trethi eiddo (y ffynhonnell refeniw unigol fwyaf yn y gyllideb weithredu), mae polisi o gynnal codiadau treth eiddo i gyfradd chwyddiant yn golygu bod yr arian i'w wario ar dlodi (neu flaenoriaethau polisi eraill) yn gyfyngedig.

Mae 'TO Prosperity', Strategaeth Lleihau Tlodi Toronto (TPRS) yn strategaeth 20 mlynedd sy'n rhedeg rhwng 2015 a 2035. Mae Cynlluniau Gweithredu pedair blynedd yn cyd-fynd â'r strategaeth, y cyntaf o 2015 i 2018, a'r ail, a gymeradwywyd ddiwedd 2019, ar gyfer 2019 i 2022. Mae'r cylch pedair blynedd hwn yn adlewyrchu cylch etholiadol Toronto. Daeth y strategaeth i fodolaeth yn erbyn cefndir cyfraddau tlodi sy'n gysylltiedig ag incwm ar draws Toronto o 20% ar gyfer oedolion a 25% ar gyfer plant. Nid yw'r TPRS yn rhaglen gyda'i chyllideb ei hun ond yn strategaeth gorfforaethol gyfan, gan roi cyfeiriad cyffredinol ar flaenoriaethau lleihau tlodi'r Ddinas. Chwe blynedd i mewn, mae'n strategaeth fyw, ond hefyd yn un sydd â hanes.

Bu'r TPRS hefyd yn destun gwerthusiad academaidd a osodwyd yn erbyn cefndir strategaethau lleihau tlodi yn y De Byd-eang (Shaffer a Tranjan, 2019).

Cyd-destun a gwreiddiau

Deilliodd y TPRS gyda phenderfyniad gan Gyngor y Ddinas yn 2014, ychydig fisoedd cyn etholiad Cyngor y Ddinas. Roedd y TPRS yn rhan o symudiad ehangach gan ddinasoedd a thaleithiau ledled Canada, yn ogystal â'r llywodraeth ffederal (yn 2018), i gyflwyno strategaethau gwrthdlodi. Roedd rhai o'r unigolion a sefydliadau'r trydydd sector a oedd yn pwysu am strategaeth wedi bod yn ymwneud â strategaeth tlodi Ontario gynharach yn flaenorol. Roedd yr ymgeisydd maerol llwyddiannus wedi addo cyflwyno strategaeth o'r fath pe bai'n cael ei ethol.

Mae'r NPI yn deall bod sawl math gwahanol o strategaeth wedi'u hystyried gan weithwyr y cyngor. Ystyriwyd bod y dewis sylfaenol yn gorwedd rhwng strategaeth a oedd yn canolbwyntio'n dynn ar ychydig o flaenoriaethau yn unig ac un gyda'r nod o ymgorffori ffocws gwrthdlodi ledled adrannau ac asiantaethau cyngor y ddinas. Roedd angen o leiaf un fenter proffil uchel ar y cyntaf i ddangos bod y TPRS yn gweithio ac yn effeithiol.

Roedd yr olaf yn ymwneud mwy â chefnogi ac addysgu, gyda'r nod o newid dull rheoli ac ail-lunio cyllidebau. Efallai y byddai cyd-destun ariannol tynn wedi ffafrio'r dull olaf yn hytrach na'r cyntaf.

Yn ymarferol, roedd y strategaeth a fabwysiadwyd, ar orchymyn y Dirprwy Faer sy'n gyfrifol am y prosiect, yn fwy uchelgeisiol na'r un o'r rhain, gan gynnwys pum maes thematig fel blaenoriaethau – sef sefydlogrwydd tai, mynediad at wasanaethau, tegwch teithio (trafnidiaeth gyhoeddus), mynediad at fwyd, a swyddi o ansawdd ac incwm y gellir byw arno. Roedd hefyd yn anelu at newid systemig, er enghraifft, ysgogi pŵer economaidd y ddinas i sbarduno twf economaidd cynhwysol ac ymgysylltu â staff a thrigolion y ddinas ar ymdrechion i leihau tlodi.

Er gwaethaf y cwmpas eang hwn, roedd y syniad bod y TPRS yn ymwneud â llunio sut yr oedd adrannau ac asiantaethau'n deall tlodi a'u cyfrifoldeb amdano yn parhau i fod yn bwysig. Un arwydd o hyn oedd bod y broses ymgynghori dros y TPRS yn haf 2015, cyn ei chyflwyno, nid yn unig yn cynnwys nifer fawr o aelodau o'r cyhoedd, ond hefyd holl Bwyllgorau Sefydlog y Cyngor yn ogystal â'i asiantaethau, gan gynnwys y Comisiwn Teithio.

Cwmpas a dyluniad

Diffiniad tlodi

Nid yw'r TPRS yn anelu at leihau cyfradd tlodi; felly dim ond ar ffurf cefndir y mae diffiniadau o dlodi yn bwysig. Pan ddaeth y TPRS i fodolaeth, cyhoeddodd Swyddfa Ystadegol Canada dri mesur tlodi:

- trothwy incwm isel (LICO), ac islaw hwnnw lle mae gwariant aelwyd ar fwyd, cysgod a dillad yn cymryd cyfran lawer mwy o'i incwm na'r cyfartaledd;
- mesur incwm isel (LIM), lle mae incwm aelwydydd cyfwerth yn is na 50% o'r incwm canolrifol cenedlaethol; a
- mesur sy'n seiliedig ar y farchnad (MBM), yn seiliedig ar gost basged o nwyddau a gwasanaethau sy'n cynrychioli safon byw sylfaenol (Aldridge, 2017).

Yn 2018, mabwysiadwyd yr MBM gan y llywodraeth ffederal yn fesur swyddogol o dlodi. Ar wahân i'r feirniadaeth a ysgogodd yr MBM (Sarlo, 2020), mae blaenoriaethu'r mesur hwn dros y lleill wedi arwain at golli eglurder ynghylch beth yw'r gyfradd dlodi mewn gwirionedd. Er enghraifft, yn 2018, er bod cyfradd tlodi MBM Toronto yn 13%, disgrifiodd Cyngor y Ddinas ei hun fod tlodi'n effeithio ar un o bob pedwar plentyn yn y ddinas ac un o bob pump o oedolion (Dinas Toronto, 2018).

Cwmpas y strategaeth a'r blaenoriaethau

Mae'r ail o'r Cynlluniau Gweithredu pedair blynedd, ar gyfer 2019–22, yn rhoi darlun da o'r hyn sy'n sefydlog o fewn y TPRS a pha agweddau arni sy'n newid dros amser. Roedd y pum thema a'r argymhellion sy'n gysylltiedig â hwy, sy'n disgrifio'r cyfeiriad teithio a ddymunir, yn aros yr un fath ag yng Nghynllun Gweithredu 2015–18. Mae fersiwn cryno o'r argymhellion, ynghyd â'r thema gysylltiedig, fel a ganlyn:

- Gwella ansawdd a chyflenwad tai fforddiadwy; cynorthwyo aelwydydd incwm isel i sicrhau a chynnal tai fforddiadwy (sefydlogrwydd tai);
- Cynyddu mynediad ac argaeledd gwasanaethau; gwella mynediad at raglenni o ansawdd uchel i blant ac ieuencid (mynediad at wasanaethau);
- Gwneud teithio'n fwy fforddiadwy i breswylwyr incwm isel; gwella gwasanaethau yn y maestrefi mewnol (tegwch trafndiaeth);
- Dileu llwgu; gwella mynediad at fwyd fforddiadwy, maethlon a diwylliannol briodol (mynediad at fwyd); a
- Gwella'r cymorth incwm; creu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer grwpiau incwm isel sydd â diweithdra uchel; gwella ansawdd swyddi (swyddi o safon a chyflogau y gellir byw arnynt).

Wrth edrych yn ôl, mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn rhestru'r prif gyflawniadau o dan bob un o'r themâu yng nghyfnod 2015–18. Mae tri yn sefyll allan yma. Y cyntaf oedd cam 1 rhaglen *Fair Pass* (o dan degwch trafndiaeth), sy'n darparu prisiau teithio disgownt i oedolion sy'n cael cymorth cymdeithasol. Roedd yr ail (o dan fynediad at wasanaethau) yn cynnig cyfleusterau gofal plant newydd mewn Ardaloedd Gwella Cymdogaeth a mannau a chanolfannau ieuencid mewn canolfannau hamdden cymunedol a llyfrgelloedd. Y trydydd oedd darparu cyllid wedi'i sefydlogi ar gyfer Tai Cymunedol Toronto.

Wrth edrych ymlaen, mae Cynllun Gweithredu 2019–22 yn nodi datblygu'r rhaglen Tegwch Teithio ymhlith tair menter strategol allweddol, ochr yn ochr â datblygu Cynllun Gweithredu TPRS trefol wedi'i arwain gan frodorion a hyrwyddo dull cynhwysol o ddatblygu economaidd.

Cyllideb

Mae'n rhaid gweld ehangder y TPRS, a adlewyrchir yn ei themâu a'i hargymhellion, ochr yn ochr â'r ffaith nad oes ganddi ei chyllideb benodol ei hun. Nid yw hynny'n golygu diystyru gwariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â strategaeth uwchlaw a thu hwnt i gyllideb arferol adran. I'r gwrthwyneb, gall gwariant ychwanegol o'r fath, ar 'fentrau newydd a gwell', ddigwydd ond nid yw'n dod o gronfa ariannol sy'n benodol i TPRS a bennwyd ymlaen llaw. Bu maint y gwariant ychwanegol yn fach: rhyw CAN\$100m (£65m) y flwyddyn dros 2015–18, tuag 1% o gyfanswm cyllideb weithredu'r ddinas.

At hynny, aeth 90% o'r holl wariant sy'n gysylltiedig â TPRS ar fentrau newydd a gwell mewn blwyddyn (2017) ar un eitem yn unig, sef y trydydd o'r tri 'prif gyflawniad' sy'n ymwneud â chyllid wedi'i sefydlogi ar gyfer Tai Cymunedol Toronto.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n bosibl y bydd ail-lunio gweithgareddau a gwariant sy'n bodoli eisoes o ganlyniad i ymgorffori ffocws gwrthldodi ledled yr adrannau (yn debyg i'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddisgrifio fel 'plygu' polisi neu wasanaethau) yn parhau'n bwysig efallai.

Rhoi'r strategaeth ar waith

Er mwyn i strategaeth heb ei chyllideb benodol ei hun weithio, mae angen mynediad lefel uchel ar y sbardun y tu ôl iddi (yn yr achos hwn, y Swyddfa Strategaeth Lleihau Tlodi) a chymorth gwleidyddol lefel uchel parhaus. Mae mynediad yn golygu bod lleihau tlodi ar y bwrdd (a bod swyddfa PRS wrth y bwrdd). Yn yr un modd, gall bodolaeth y TPRS helpu i sicrhau bod syniadau a arferai fod wrth yr ymylon yn symud i'r canol. Ond yr adrannau o hyd sy'n gorfod nodi, datblygu a chyflwyno cynigion a fydd yn troi argymhellion y TPRS yn gamau pendant. Mae hyn yn wir ni waeth a yw'n ymwneud ag ail-lunio'r ddarpariaeth bresennol mewn rhyw ffordd neu geisio cyllid ychwanegol uwchlaw'r gyllideb. Mae angen adnoddau hefyd ar gyfer y gwaith o gynllunio cynigion i'w cyflwyno.

Rhaid dod o hyd i'r adnoddau i wneud hyn o fewn yr adrannau. Felly, mae syniadau a allai fynd â'r TPRS yn ei blaen yn cystadlu â galwadau eraill ar amser ac adnoddau cyngor y ddinas hyd yn oed tra'i bo'n ddyddiau cynnar ar y syniadau hynny.

Cyfrifoldeb

Fel strategaeth gan y Cyngor, mae'r TPRS yn atebol i Gyngor y Ddinas yn y ffordd arferol. Rhwng cymeradwyo'r TPRS yn 2015 a dechrau paratoi yn 2019 ar gyfer yr ail Gynllun Gweithredu pedair blynedd, yr unig benderfyniad a wnaed gan y Cyngor mewn cysylltiad â'r TPRS oedd y bleidlais i gymeradwyo rhaglen *Fair Pass* yn 2016. Mae sawl penderfyniad pellach yn ystod 2019 yn dangos bod yr agwedd hon ar atebolrwydd wedi bod ar ei chryfaf hyd yma pan fydd cynlluniau newydd yn cael eu cytuno.

Mae rôl y Dirprwy Faer wrth lunio'r strategaeth ar y dechrau wedi'i nodi uchod, yn ogystal â'r angen am gefnogaeth ac arweinyddiaeth wleidyddol lefel uchel ar gyfer unrhyw strategaeth sydd heb ei chyllideb ei hun. Er nad ydym mewn sefyllfa i asesu'r mater hwn, cyflwynodd marwolaeth y Dirprwy Faer hwn yn 2017 her i TPRS o ystyried ei rôl wleidyddol ganolog ynddi hyd at y dyddiad hwnnw. Ni roddwyd rôl eiriolwr lleihau tlodi i'r Dirprwy Faer newydd, ond i gynghorydd arall.

Deallwn nad oes grŵp allanol, ffurfiol nac anffurfiol, y mae'r TPRS yn adrodd iddo. Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar gyfer y Gymuned ym mlwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y TPRS ond ni allwn ddod o hyd i unrhyw beth mwy diweddar sy'n debyg i hynny.

Targedau a monitro

Mae'r cwestiwn a oes gan y TPRS dargedau ac a yw'n destun monitro yn dibynnu ar yr hyn a ddeallir wrth y termau hynny. Er gallai targedau wedi'u meintioli fod ynghlwm wrth lawer o'r argymhellion sy'n gysylltiedig â'r meysydd thematig, nid oes targedau o'r fath wedi'u creu hyd yma. Mae adroddiad gwerthuso ar gyfer cam 1 rhaglen *Fair Pass* wedi'i gyhoeddi sy'n canolbwyntio ar sefydlu cost y rhaglen yn ystod ei cham cyntaf, deall y materion sy'n gysylltiedig â'i gweithredu a phennu'r effaith ansoddol ar drigolion incwm isel o ran y defnydd a wnaed o'r tocyn a'r manteision ohono (Taylor Newberry Consulting, 2019).

Er bod hyn yn cefnogi'r farn y bu'r rhaglen o fudd i'r rhai sydd wedi gallu defnyddio'r tocyn, nid oes ffon fesur i farnu a lwyddodd i gyrraedd ei nodau, neu a oedd yn llwyddiant digonol, o ystyried yr adnoddau, yr adnoddau ariannol a dynol, a neilltuwyd iddo.

Monitro

Mae Cynllun Gweithredu 2019 yn cynnwys cynnig manwl ar gyfer Fframwaith Monitro a Gwerthuso ar gyfer TPRS – i 'ddangos canlyniadau ar lefel effaith mentrau PRS yn ogystal â chipio effaith gyffredinol' y TPRS ar breswylwyr.

Rydym yn deall y gall absenoldeb targedau a monitro hyd yn hyn adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan, a hynny'n ymwneud â gwerth monitro a'r hyn sy'n bwysig. Er enghraifft, gall eiriolwyr TPRS fod yn bryderus am ganlyniadau cynnar nad ydynt yn dangos fawr o effaith: mae newid yn cymryd amser i ddod drwodd. Efallai y byddai'n well gan strategaeth sy'n ceisio newid y ffordd y mae adrannau'n deall ac yn gweithredu ar dlodi ddangosyddion allbynnau – faint o brosiectau, faint o arian ychwanegol a wariwyd neu a adleolwyd? – i ddangosyddion canlyniadau. Mae allbynnau hefyd yn addas i'r rhai sydd am gael eu barnu ar gamau gweithredu.



Astudiaeth Achos 2

Baden-Württemberg, yr Almaen: 'Strong children, rich chances', 2020

Cyflwyniad

Baden-Württemberg (BW) yw'r mwyaf de-orllewinol o 16 talaith (rhanbarth) yr Almaen, sy'n ffinio â Ffrainc a'r Swistir. Gyda phoblogaeth o 11 miliwn a CMC y pen 50% yn uwch na chyfartaledd yr UE a mwy na dwbl Cymru, hwyrach bod BW yn ymddangos yn ddewis annhebygol ar gyfer yr astudiaeth hon. Ond mae tri rheswm yn ei gymeradwyo. Yn gyntaf, mae BW yn anarferol ymhlith taleithiau'r Almaen o ran cael strategaeth gwrthdlodi o gwbl oherwydd bod cyfrifoldeb o dan gyfansoddiad yr Almaen am y rhan fwyaf o bolisiau sy'n berthnasol i dlodi naill ai'n perthyn ar y lefel ffederal (Berlin) neu'r lefel leol. Yn ail, mae'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r strategaeth yn ddigonol ac yn glir. Yn drydydd, mae'r strategaeth yn nodedig mewn sawl ffordd, gan gynnwys ei symlrwydd ac eglurder y gwahaniaeth rhwng y strategaeth ei hun a'r rhaglen o gamau gweithredu y mae'n anelu at eu hyrwyddo.

Nod y strategaeth, y gellir cyfieithu ei theitl yn fras fel 'Plant cryf – cyfleoedd cyfoethog', yw gwella'r cyfleoedd i blant y mae eu rhieni'n dlawd i ddatblygu i'r eithaf, ac mewn ffordd iach, yn annibynnol ar (hynny yw, heb eu cyfyngu gan) statws economaidd neu gymdeithasol eu rhieni (FaFo B-W, 2020, t12).¹ Mae'r cyfleoedd gwell hyn i'w darparu drwy'r hyn a elwir yn 'rhwydweithiau atal' – cymdeithasau lleol gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill, a fydd yn gweithio gyda phlant (o tua'r adeg pan fyddant yn mynd i'r ysgol uwchradd).

Rôl y strategaeth yw hyrwyddo ac ariannu'r rhwydweithiau hyn. Nid oes gan y dalaith bŵer i orfodi naill ai'r rhwydweithiau na'r camau y maent yn eu cymryd, ond gall eu hannog drwy, er enghraifft, ariannu swyddi i'w sefydlu neu helpu i'w cynnal. Cyflwyno rhwydweithiau o'r fath i gynifer o naw dinas a 35 o ranbarthau gweinyddol BW ag a fydd yn cytuno i'w cael yw nod y strategaeth ei hun, yn union.

Cyd-destun a gwreiddiau

Mae'r strategaeth hon, a ddaeth i'r amlwg mewn ymateb i nifer o sbardunau ar wahân (a amlinellir isod), yn adlewyrchu'r cyfyngiadau a osodwyd ar y taleithiau gan gyfansoddiad ffederal yr Almaen. Yn benodol:

- Ar y naill law, mae'r cyfrifoldeb am les materol sylfaenol plant ar y lefel ffederal ac mae'n dibynnu ar fudd-dal incwm sy'n seiliedig ar brawf modd, budd-dal tai a lwfansau plant. Gan fod cyfanswm y taliadau trosglwyddo wedi'u capio ar lefel aelwydydd, pe bai talaith fel BW yn gwneud taliad ychwanegol i blant, byddai swm tebyg yn cael ei dynnu o'r hyn a roddir i'w rhieni. I bob pwrpas, ni allai'r strategaeth gynnwys dosbarthu adnoddau ariannol ychwanegol i aelwydydd tlawd.

¹ Cyfieithiad NPI.

- Ar y llaw arall, mae'r cyfrifoldeb am weithredu i liniaru effeithiau tlodi incwm (yn hytrach na'i leihau'n uniongyrchol) drwy ddarparu gwasanaethau yn eistedd gyda dinasoedd ac ardaloedd BW. Os yw'r dalaith am iddynt gymryd camau penodol, rhaid iddi ddibynnu ar eu darbwylo i wneud hynny'n rhydd.

Roedd adroddiad yn 2015 gan swyddfa ystadegol y dalaith wedi nodi bod tlodi (wedi'i fesur fel incwm isel – 60% o incwm canolrifol) yn broblem yn BW, gyda chyfraddau tlodi ar draws y dalaith (ar gyfer 2012) o 11% ar gyfer y boblogaeth gyfan a 13% ar gyfer y rhai o dan 18 oed (FaFo B-W, 2015). Mae adroddiad diweddar yn dangos bod blynyddoedd canol y degawd yn gyfnod o dlodi plant cynyddol, gyda'r gyfradd yn codi i fwy na 19% yn 2016 ac yn aros ar 19% yn 2018 (Gesellschaftsmonitoring B-W, t2). Roedd bwrdd cynghori Gweinyddiaeth Materion Cymdeithasol ac Integreiddio'r dalaith wedi penderfynu blaenoriaethu tlodi plant. Ar y lefel ffederal, lle bu tlodi plant yn thema ers degawdau, yn 2019, roedd pleidiau'r chwith a'r canol yn datblygu eu cynlluniau eu hunain i wella sefyllfa faterol plant.

Ymateb y Weinyddiaeth oedd gweithredu ynghylch syniad 'rhwydwaith atal', a ddatblygwyd (yn BW) gan weithiwr cymdeithasol yn ninas Singen, gyda'r nod o'i ledaenu ar draws y dalaith yn wirfoddol. Roedd datblygu'r strategaeth yn cynnwys cymryd y syniad drwy'r holl gamau cymeradwyo, gan gynnwys o'r bwrdd cynghori ac o'r dinasoedd a'r rhanbarthau, yn ogystal â nodi posibiliadau ariannu (gan gynnwys o Gronfa Gymdeithasol Ewrop). Roedd angen i senedd y dalaith gymeradwyo'r cyllid ar gyfer y strategaeth. Datganwyd 2020 yn flwyddyn o frwydro yn erbyn tlodi plant yn BW. Roedd yr ymgyrch swyddogol yn erbyn tlodi plant yn cynnwys y rhwydwaith atal wrth ei gwraidd.

Cwmpas a dyluniad

Diffiniad tlodi

Y diffiniad o dlodi sy'n gysylltiedig â'r risgiau tlodi swyddogol a adroddwyd uchod yw cyfran y bobl sy'n byw mewn cartrefi sydd â llai na 60% o'r incwm canolrifol cenedlaethol. Nid yw'n glir i ba raddau y mae'r diffiniad hwn yn berthnasol i'r rhwydweithiau atal, ond mae maint bach y cyllidebau dan sylw (gweler isod) yn golygu na all y rhwydweithiau hyn fod yn cynnig budd uniongyrchol i'r rhan fwyaf o blant mewn cartref incwm isel sy'n byw yn Baden-Württemberg.

Cwmpas y strategaeth a'r blaenoriaethau

A dim ond un cam gweithredu o dan y strategaeth, nid oes angen holi ble mae'r blaenoriaethau'n gorwedd.

Hyd yma, mae 11 o 44 o ddinasoedd a rhanbarthau BW wedi cael cymorth y wladwriaeth i rwydwaith o'r fath mewn ymateb i ddau alwad am gynigion. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n ymddangos bod y sefydliad lleol sy'n gwneud y cais yn gorff sector cyhoeddus lleol, ond mewn o leiaf un achos, mae'r sefydliad sy'n ymgeisio yn elusen fawr.

Mae'r cymhelliant y tu ôl i'r rhwydwaith atal yn dibynnu ar y farn gyfarwydd nad yw tyfu i fyny mewn tlodi yn golygu amddifadedd materol yn unig ond hefyd yn lleihau cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymdeithasol ac integreiddio.

Er bod manylion y rhwydweithiau atal y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hon, yn fras ymddengys eu bod yn ceisio gwella dealltwriaeth o ystod o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys iechyd ac addysg arbenigol, mynediad atynt a defnydd ohonynt. Mae'r rhwydweithiau unigol yn wahanol yn eu pwyslais penodol.

Er bod y strategaeth (a'r cymorth y mae'n ei ddarparu) yn gyfyngedig o ran amser, disgwylid pe bai llywodraeth bresennol BW yn cael ei dychwelyd i'w swydd mewn etholiadau ledled y dalaith ym mis Mawrth 2021, y byddai'r strategaeth yn parhau gyda 'galwad' arall am gynigion. Yn dilyn yr etholiadau hynny a'r trafodaethau dilynol dros lywodraeth newydd, ymrwymiad i barhau â strategaeth y rhwydwaith atal yw un o'r pwyntiau yn y cytundeb clymblaid newydd.

Cyllideb

Ar gyfartaledd, mae'r wladwriaeth wedi darparu cyllid o tua €70,000 fesul prosiect.

Rhoi'r strategaeth ar waith

Nid yw strategaeth BW yn un sy'n ceisio newid sut mae'r llywodraeth ei hun yn meddwl am faterion sy'n ymwneud â thlodi, nac yn gweithio arnynt; ni ddisgwylir ychwaith iddi gael unrhyw wersi parhaol ar ei chyfer. Gyda chyfrifoldeb am y strategaeth yn gorwedd o fewn un weinidogaeth, nid yw'r strategaeth yn codi unrhyw faterion cydlynu o fewn y llywodraeth. Cyn belled â bod bwrdd cynghori'r gweinidog a'r weinyddiaeth wedi ymrwymo iddi (ac mae'r senedd yn cymeradwyo'r cyllid), ni fydd unrhyw anhawster ar ochr y llywodraeth i gynnal y strategaeth fel rhywbeth diriaethol.

Cyfrifoldeb

Mae'r cyfuniad o nod clir (rhwydweithiau ym mhob un o'r 44 dinas a rhanbarth) a diffyg unrhyw bŵer i orchymyn y canlyniad yn golygu y gellir mesur i ba raddau y mae'r strategaeth wedi llwyddo yn syml gan nifer y rhwydweithiau sydd wedi'u sefydlu. Gyda chyfrifoldeb am y strategaeth yn eistedd o fewn un weinyddiaeth, mae hefyd yn glir pwy o fewn y llywodraeth sy'n atebol am y canlyniad.

I'r gwrthwyneb, nid yw'n glir a yw'r sefydliadau lleol arweiniol ar gyfer pob rhwydwaith mewn unrhyw ffordd yn atebol i lywodraeth y wladwriaeth am ba mor dda y mae eu rhwydwaith yn perfformio. O leiaf yn benodol, nid yw adroddiad monitro swyddfa ystadegol y wladwriaeth yn gwneud asesiad o'r fath. Nid yw'n glir ychwaith a oes unrhyw atebolrwydd i deuluoedd y plant, neu hyd yn oed y plant eu hunain (a rhai wedi hen gyrraedd eu harddegau), naill ai ar gyfer y strategaeth neu ar gyfer sut mae'r rhwydweithiau atal unigol yn gweithio.

Targedau a monitro

Mae gan y strategaeth ei hun y targed syml sy'n seiliedig ar allbwn o weld rhwydweithiau atal cynaliadwy wedi'u sefydlu ym mhob un o'r 44 o ddinasoedd a rhanbarthau. Nid yw'n hysbys a ddylid barnu bod yr 11 sydd ar waith hyd yma (25%) yn foddhaol, ond mae mesur mor syml yn sicr yn caniatáu i'r cwestiwn gael ei ofyn mewn ffordd glir iawn.

Monitro

Mae monitro effaith y rhwydweithiau atal eu hunain wedi'i gynnwys yn y strategaeth. Uned ymchwil deuluol swyddfa ystadegol y wladwriaeth sy'n gyfrifol am asesu pob un o'r rhwydweithiau. Mae'r asesiad wedi'i gynllunio i nodi ffactorau llwyddiant ar gyfer datblygu rhwydweithiau o'r fath ac i sicrhau bod y profiad ar gael i eraill ('rhannu arfer da'). Fodd bynnag, nid yw wedi'i gynllunio i werthuso na chymharu rhwydweithiau mewn gwahanol leoliadau. Cyhoeddodd swyddfa ystadegol y wladwriaeth adroddiad 140 tudalen ar y chwe rhwydwaith atal cyntaf ('yn erbyn tlodi plant ac ar gyfer iechyd plant') ym mis Hydref 2020 (FaFo B-W, 2020).

Astudiaeth Achos 3

Castilla La Mancha, Sbaen: Strategaeth yn erbyn Tlodi ac Anghydraddoldeb Cymdeithasol, 2017–2020

Cyflwyniad

Castilla La Mancha (CLM) yw un o'r 17 rhanbarth ymreolaethol yn Sbaen. Hwn yw'r trydydd mwyaf o ran arwynebedd, ac mae yng nghanol y wlad. Mae Sbaen yn gweithredu fel gwladwriaeth unedol ddatganoledig, gyda phob cymuned ymreolaethol yn meddu ar raddau amrywiol o bŵer datganoledig. Gyda phoblogaeth o ddwy filiwn a CMC y pen islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, ond yn agos at un Cymru, mae CLM yn gymharydd naturiol i Gymru. Mae CLM yn darparu amrywiaeth ymhlith ein hastudiaethau achos gan fod ei strategaeth gwrthdlodi, yn wahanol i rai, yn para am gyfnod byr, sy'n rychwantu pedair blynedd yn unig. Mae'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r strategaeth yn glir, a chynigir mewnwelediad o adroddiadau monitro a gwerthuso annibynnol.

Mae 'Strategaeth yn erbyn Tlodi ac Anghydraddoldeb Cymdeithasol' CLM, sy'n rhedeg rhwng 2017 a 2020, yn strategaeth llywodraeth yn yr ystyr ei bod wedi'i chyfeirio at adrannau'r llywodraeth. Yn seiliedig ar gysyniad clir o dlodi ac allgáu cymdeithasol, ei nod yw cael yr adrannau a chyrrff cyhoeddus eraill i weithredu – ac mewn llawer o achosion, parhau i weithredu – yn erbyn tlodi ac allgáu cymdeithasol. Bwriedir i'r strategaeth ddynodi ymrwymiad gwleidyddol i weithredu. Ond er ei fod wedi'i chyfeirio at adrannau'r llywodraeth, mae llawer o'r camau gweithredu'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r cyrrff trydydd sector sydd wedi'u contractio i ddarparu'r gwasanaethau.

Cyd-destun a gwreiddiau

Daeth y strategaeth i'r amlwg yn Castilla-La Mancha yn dilyn etholiad 2015 i'r Cortes, neu'r senedd ranbarthol, pan oedd dwy blaid wleidyddol (y blaid sosialaidd, PSOE, a Podemos chwith y poblyddwyr) wedi addo gweithredu ar dlodi yn eu maniffestos. Ar ôl yr etholiad, dechreuodd y ddwy gyd-drafod ffurfio llywodraeth glymblaid ac mae'r strategaeth yn adlewyrchu hynny. Yn etholiad 2019, sicrhodd y PSOE fwyafrif bach llwyr.

Un ffactor ar wahân y tu ôl i gyflwyno strategaeth gwrthdlodi yw dylanwad y Rhwydwaith Gwrthdlodi Ewropeaidd Castilla-La Mancha (EAPN-CLM).² Rhwydwaith o ryw 40 o elusennau gweithredu cymdeithasol a sefydliadau eraill ar lawr gwlad a/neu gymunedol, a'u hamcanion yw gweithredu a datblygu gwaith rhwydwaith ac uno ymdrechion i sicrhau canlyniadau gwell ac ehangach yn y frwydr i ddileu tlodi, allgáu ac anghydraddoldeb yn y rhanbarth. Eu nod yw cael camau gweithredu yn erbyn tlodi ac allgáu cymdeithasol ymhlith blaenoriaethau'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau cyhoeddus yn Castilla-La Mancha. Maent yn hyrwyddo grymuso a chyfranogiad y grwpiau mwyaf agored i niwed mewn bywyd cyhoeddus, gan ei gwneud yn bosibl adeiladu cynigion y maent hwy eu hunain yn eu rhannu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau cyhoeddus.

² Europea de Lucha Contra la Pobreza y la Exclusion Social en Castilla-La Mancha

Chwaraeodd EAPN-CLM ran allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth, ar ôl bod yn bresennol yng nghyfarfod agoriadol y Cyngor Llywodraethu yn gynnar yn 2016 pan nodwyd bod angen sefydlu strategaeth gwrthdlodi drawsadrannol sy'n canolbwyntio ar y rhai gwaethaf eu byd. Cyfrannodd EAPN-CLM hefyd at gynllunio'r strategaeth a'i chadarnhau drwy ymgynghori. Fel y trafodwyd isod, mae'n parhau i chwarae rhan yn y strategaeth, gan gynnwys ei monitro a chyflawni rhai elfennau. Cydnabyddir y rôl ganolog a chwaraeir gan EAPN-CLM ym mharagraffau agoriadol y ddogfen strategaeth.

Yn sail i'r datblygiadau hyn oedd y cynnydd mewn tlodi yn CLM ers yr argyfwng economaidd ac ariannol yn 2008. Cododd y gyfradd tlodi – risg tlodi ac allgáu cymdeithasol (AROPE) – yn raddol o 29% i 38% dros y cyfnod rhwng 2008 a 2016. Cyfradd 2016, 10 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, oedd y drydedd uchaf ymhlith y 17 rhanbarth yn Sbaen.

Cwmpas a dyluniad

Diffiniad tlodi

Mae'r strategaeth yn defnyddio cysyniad integredig o dlodi sy'n cynnwys amddifadedd materol, ond sy'n mynd y tu hwnt iddo. Deellir 'tlodi' yn Sbaen yn fras. Mae incwm isel yn un amlygiad ohono; a diffyg adnoddau (neu ddiffyg mynediad atynt) yn un arall. Defnyddir cysyniadau cynhwysiant ac allgáu cymdeithasol yn eang hefyd yn Sbaen. Wrth fabwysiadu diffiniad eang, nid yw'r cynnydd y mae'r strategaeth yn ei wneud yn un cysyniadol ond yn un ymarferol, i ymrwymo actorion cyhoeddus i gymryd ystod eang o gamau gweithredu wrth fynd i'r afael â thlodi, yn hytrach na chanolbwyntio camau gweithredu ar incwm isel ei hun yn unig. Fodd bynnag, mae deuoliaeth bwysig o fewn y strategaeth, sef, er bod ei chwmpas yn eang, fod ei thargedau a'i dangosyddion yn parhau i ganolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar incwm isel.

Cwmpas y strategaeth

Mae strategaeth CLM yn un eang, wedi'i hanelu cymaint at allgáu cymdeithasol ag at dlodi materol ei hun. Gellir gweld yr ehangder hwn yn y pynciau dan sylw. Maent yn cynnwys: tai fforddiadwy; isafswm incwm; mynd i'r afael â thlodi ynni; gofal iechyd cyffredinol; mynediad at gyflogaeth; tegwch mewn addysg; ac eithrio ac anfantais grwpiau penodol, gan gynnwys menywod a'r boblogaeth Romani.

Dewiswyd rhai o'r pynciau hyn oherwydd tystiolaeth ar faint y problemau hyn yn y rhanbarth. Mae eraill yn tynnu ar ddatganiadau amrywiol, gan gynnwys Datganiad Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig a Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE.

Mae Statud Ymreolaeth CLM yn mandadu sylw arbennig i'r grwpiau mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Gellir gweld ehangder y strategaeth hefyd wrth gategoreiddio mesurau y mae'n eu mabwysiadu a'r cynllun gweithredu 58 pwynt sydd wedyn yn eistedd ynddo. Fel ffordd o grynhoi hyn, mae'r categorïau (a'r is-gategorïau) a nifer y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â phob un fel a ganlyn:

- Mesurau lliniaru yn erbyn tlodi (12 cam gweithredu);
- Mesurau ataliol yn erbyn allgáu a bod yn agored i niwed wedi'u rhannu'n: gyflogaeth gynhwysol (5); defnydd (2); tai fforddiadwy (5); cymorth i'r digartref (1); pobl ifanc sydd mewn perygl (3); dioddefwyr cam-drin domestig (3); arall (12); a
- Mesurau effeithlonrwydd a llywodraethu (15).

Er mwyn rhoi rhai enghreifftiau o'r mesurau hyn, mae mesurau lliniaru'n cynnwys: creu cofrestrfa o aelwydydd ag incwm isel; datblygu cynllun yn erbyn tlodi ynni (neu danwydd); a grantiau prydau ysgol. Mae enghreifftiau o fesurau ataliol yn cynnwys: cyfryngu cymdeithasol-addysgol gyda phoblogaethau Romani mewn cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc; cadw, addasu a gwella'r gronfa gyhoeddus o dai rhent cymdeithasol; buddion undod i fenywod sydd wedi goroesi trais yn y cartref. Mae enghreifftiau o fesurau effeithiolrwydd a llywodraethu yn cynnwys hyfforddi gweithwyr proffesiynol yn barhaus a hyrwyddo cydgysylltu rhwng polisïau tai a chymdeithasol.

Blaenoriaethau

Mae'n werth nodi dau bwynt yma. Mae'r cyntaf yn ymwneud ag isafswm incwm a'i gamau gweithredu cysylltiedig (o dan bennawd mesurau lliniaru). Mae presenoldeb camau gweithredu o'r fath yn adlewyrchu'r ffaith bod y cyfrifoldeb am gynllun isafswm incwm (yn seiliedig iawn ar brawf modd) yn bodoli ar y lefel ranbarthol hyd at yn ddiweddar. Roedd budd-daliadau brys hefyd ar gael ar y lefel ddinesig. Fodd bynnag, mae'r cynllun incwm gofynnol a weinyddwyd ar y lefel ranbarthol wedi'i gynnwys yn y cynllun cenedlaethol yn ddiweddar. Mae'r goblygiadau i bwerau a chyllidebau yn parhau i fod yn aneglur.

Mae'r ail yn ymwneud â'r hyn sy'n newydd. Deallwn fod gweithredu ar dlodi ynni (yr eitem gyntaf yn y rhestr o fesurau lliniaru ar ôl y ddau ar isafswm incwm) yn newydd ac yn bwnc y mae CLM yn ei arwain yn genedlaethol. I'r gwrthwyneb, roedd y rhan fwyaf o'r pynciau eraill yn feysydd lle'r oedd camau eisoes yn cael eu cymryd.

Cyllideb

Mae gan y strategaeth gyllideb (€1.1 biliwn dros y pedair blynedd) a allai fod yn ffordd o ariannu camau gweithredu strategaeth neu ffordd o sicrhau bod cyllidebau adrannol prif ffrwd yn dyrannu digon o adnoddau i'r camau hyn.

Rhoi'r strategaeth ar waith

Mae'n anochel y bydd unrhyw strategaeth gwrthdodi eang yn tynnu llawer o faterion i mewn lle'r oedd y llywodraeth eisoes yn cymryd rhywfaint o gamau. Pan fydd strategaeth yn gwneud hynny, fodd bynnag, y cwestiwn yw beth sy'n cael ei ddatblygu drwy wneud hynny. Mae strategaeth CLM yn cynnig nifer o atebion posibl.

- Mae'r strategaeth yn rhestru problemau sy'n ymwneud â'r ffordd yr oedd y llywodraeth yn gweithio yn y gorffennol. Gyda'r canlyniadau a ddymunir i'w cyflawni'n bennaf drwy ddefnyddio adnoddau a gwasanaethau presennol yn well, gall y strategaeth ychwanegu gwerth fel dogfen reoli.
- Drwy glymu camau gweithredu gyda'i gilydd ar draws adrannau, mae'r strategaeth yn arwydd o'u pwysigrwydd ar y cyd, ac yn darparu sail ar gyfer cynnig a datblygu cydweithrediad (rhwyng adrannau a chyda sefydliadau allanol) a dulliau cyffredin (er enghraifft, gwell cyfranogiad).
- Ar wahân i roi eglurder i weision cyhoeddus am yr hyn a ystyrir yn bwysig, mae'r posibilrwydd o werthusiad ar ddiwedd y strategaeth hefyd yn rhoi cymhelliant.

Nid yw'n glir a ellir dweud bod unrhyw strategaeth eang gyda 58 o bwyntiau gweithredu yn dangos blaenoriaethau penodol.

Mae rhai camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu, er enghraifft, mynediad at dai ac ymatebion i ddadfeddiant gorfodol. Ond efallai nad yw hynny'n ffrwyth y strategaeth ei hun gan y gellid blaenoriaethu unrhyw gam gweithredu, mewn egwyddor, p'un a yw mewn strategaeth ai peidio.

Cyfrifoldeb

O fewn y llywodraeth ranbarthol, yr adran lles cymdeithasol sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth a chyfrifoldeb am y strategaeth.

Yn allanol, mae'n ofynnol adrodd i'r senedd ranbarthol. Nid oes gweinidog penodol yn gyfrifol am adrodd ar y targedau. Deallir bod EAPN-CLM hefyd yn gyfrifol am werthuso'r strategaeth (cyfrifoldeb y mae'n ei gyflawni'n rhannol drwy gcontractio'r gwaith hwn allan). Mae'r ffaith bod EAPN-CLM yn cymryd rhan ym mhob cam o gynnydd y strategaeth, o'r cychwyn i'r gwerthusiad, yn tanlinellu'r rôl ganolog y mae wedi'i chwarae, ac yn parhau i'w chwarae.

Targedau a monitro

Mae'r strategaeth yn nodi pum dangosydd y pennwyd targedau rhifiadol ar eu cyfer ar gyfer 2020. Maent yn cyfeirio at:

- risg gyffredinol tlodi ac allgáu cymdeithasol (AROPE) – islaw 35% erbyn 2020;
- y ganran mewn tlodi difrifol – islaw 4% erbyn 2020;
- canran y plant ag amddifadedd materol difrifol – islaw 7% erbyn 2020;
- y ganran sy'n profi tlodi ynni – islaw 7% erbyn 2020; a
- chanran y bobl mewn cartrefi â dwysedd cyflogaeth isel (yn debyg i aelwydydd sy'n 'rhan-weithio') – o dan 15% erbyn 2020.

Gellir dweud tri pheth am y rhestr hon. Yn gyntaf, deallwn ei bod yn anarferol i lywodraeth yn Sbaen bennu targedau rhifiadol. Yn ail, i'r graddau bod rhai (yn enwedig y cyntaf a'r olaf) yn dibynnu ar ba mor dda y mae'r economi'n gwneud, mae'n amlwg bod cyrraedd y targedau ar y mwyaf yn rhannol ddibynnol yn unig ar lwyddiant y strategaeth ac ar yr hyn y mae'r llywodraeth ranbarthol yn ei wneud. Yn drydydd, er bod y rhan fwyaf o'r strategaeth a'r pwyntiau gweithredu yn perthyn i'r pennawd cynhwysiant/allgáu cymdeithasol, mae'r targedau i gyd yn ymwneud â thlodi a ddiffinnir yn gul mewn termau incwm isel neu faterol. Gall hyn fod yn arwydd o ymrwymiad gwleidyddol ac o'r pwysigrwydd sydd ynghlwm wrth y strategaeth. Nid yw'n glir sut y mae'n cydfynd â gweledigaeth strategaeth eang.

Monitro

Cyhoeddwyd adroddiad canolraddol ar effaith y strategaeth pan oedd data ar gyfer 2017 ar gael. Er bod hyn yn dangos cwmpwr ar bob un o'r pum mesur, nid yw gwerth blwyddyn o ddata yn ddigonol i ddod i unrhyw gasgliadau, nid yn unig am effaith y strategaeth a'i chamau gweithredu ond hefyd am yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd i fesurau tlodi eu hunain (o ystyried presenoldeb anochel amrywiadau ystadegol o flwyddyn i flwyddyn). Mae adroddiad gwerthuso terfynol y strategaeth ar y gweill o hyd ar hyn o bryd.



Astudiaeth Achos 4

Seland Newydd: Deddf Lleihau Tlodi Plant 2018

Cyflwyniad

O'r pum astudiaeth achos, dim ond un strategaeth gan lywodraeth annibynnol, genedlaethol sy'n cael ei harchwilio, sef Seland Newydd. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar y llywodraeth, er bod cydweithio â chyrff eraill. Efallai fod Seland Newydd yn ymddangos fel dewis annhebygol ar gyfer yr astudiaeth hon o gofio bod gweithredoedd llywodraeth genedlaethol yn cael eu cymharu â'r hyn y byddai cenedl ddatganoledig fel Cymru yn gallu ei wneud. Fodd bynnag, mae Seland Newydd yn parhau i fod yn astudiaeth achos ddefnyddiol iawn am dri rheswm. Yn gyntaf, mae ei strategaeth yn cael ei gyrru o'r brig, gyda'r Prif Weinidog ei hun yn cymryd y portffolio lleihau tlodi plant. Yn ail, mae dogfennau cysylltiedig yn glir, gan nodi'r strategaeth a'r gweithgareddau monitro/gwerthuso. Yn drydydd, cefnogir y strategaeth gan ddeddfwriaeth.

Mae gan Seland Newydd broblem lles plant. Er ei bod yn y 14^{eg} safle allan o 189 o wledydd ar Fynegai Datblygu Dynol 2019 (UNDP, 2020),³ mae yn y 35^{ain} safle allan o 38 o wledydd datblygedig yng Ngherdyn Adroddiad Byd o Ddylanwad UNICEF 2020, sy'n mesur lles plant mewn gwledydd cyfoethog (UNICEF, 2020). Yn y mesur hwn, mae lles yn cynnwys lles meddyliol, iechyd corfforol a sgiliau academaidd a chymdeithasol. Mewn ymateb, fe wnaeth y ddwy blaid yn Seland Newydd flaenoriaethu tlodi plant ar eu llwyfannau yn 2017.

Bu mentrau gwrthdlodi yn Seland Newydd bob amser yn canolbwyntio ar syniad tegwch gwasanaethau a chyfiawnder, yn enwedig ar gyfer poblogaethau brodorol, gan gynnwys Maori. Mae mesurau gwrthdlodi plant yn dilyn eu hesiampl.

Cyd-destun a gwreiddiau

Gellir olrhain yr ymgyrch dros strategaeth tlodi plant hyd at 2012, pan gyhoeddodd y Comisiynydd Plant adroddiad ar dlodi plant (Comisiynydd Plant, 2012). Ar ôl hyrwyddo'r pwnc o'r cychwyn cyntaf, mae'r Prif Weinidog presennol wedi sicrhau bod gan y pwnc broffil uchel.

Roedd tlodi plant yn bwnc llosg yn etholiadau cenedlaethol 2017 a 2020 gyda'r blaid Lafur yn rhedeg ar lwyfan yn ymrwmo i gyflwyno deddfwriaeth gwrthdlodi plant o fewn 100 diwrnod i ddod i rym pan ddaeth i rym am y tro cyntaf yn 2017. Rhwng 2017 a 2020, llywodraethodd Llafur fel rhan o glymblaid. Yn etholiad 2020, fe'i dychwelwyd i'r swydd gyda mwyafrif.

Cafodd Deddf Lleihau Tlodi Plant 2018 ei deddfu (gyda chefnogaeth unfrydol bron) gyda'r nod o sicrhau gostyngiad sylweddol a pharhaus mewn tlodi plant a gwella lles plant a phobl ifanc yn Seland Newydd. Fe'i dylanwadwyd gan strategaeth tlodi plant 2010 y DU, a oedd hefyd yn cyflwyno targedau i gyfraith. Trafododd y Prif Weinidog, sydd hefyd bellach yn Weinidog Lleihau Tlodi Plant, ac Arweinydd yr Wrthblaid y ddeddfwriaeth gyda'i gilydd.

³ Mae'r Fynegai Datblygu Dynol yn fynegai cyfansawdd, sy'n mesur cyflawniad cyfartalog mewn tri dimensiwn o **ddatblygiad dynol: bywyd hir ac iach, gwybodaeth, a safon byw dda.**

Cwmpas a dyluniad

Mae'r hyn y cyfeiriwn ato fel strategaeth, mewn gwirionedd, yn ddwy ddogfen.

Y cyntaf yw'r Ddeddf Lleihau Tlodi Plant (y cyfeirir ati fel 'y Ddeddf'), a basiwyd yn 2018. Mae'r ail yn adran o'r Strategaeth Lles Plant a Phobl Ifanc, sy'n ceisio lleddfu caledi materol plant ac ieuencid.

Cyhoeddwyd y Strategaeth Lles Plant a Phobl Ifanc (y cyfeirir ati fel 'y Strategaeth Lles') ym mis Awst 2019, ac mae'n cynnwys y polisiâu a'r dangosyddion sy'n berthnasol i leihau tlodi plant a roddwyd ar waith ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio, ond mae hefyd yn cynnwys cyfres lawer ehangach o bolisiâu sy'n ymwneud â lles yn hytrach na tlodi, nad ydym wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.

Diffiniad tlodi

Nid oes diffiniad penodol o dlodi na tlodi plant a ddefnyddir o fewn y Ddeddf, ond mae'r mesurau ond yn cynnwys mesurau incwm: incwm isel, caledi materol a dyfalwch tlodi. Mae cysyniad lles yn y Strategaeth Lles yn mynd y tu hwnt i leddfu caledi materol (y mae'r Ddeddf yn ymwneud ag ef), drwy ymgorffori mesurau incwm ond cynnwys cylch gwaith lles llawer ehangach.

Yn y Strategaeth Lles, deallir ystyr lles drwy'r chwe 'chanlyniad' lefel uchel lle mae'n ceisio gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Y rhain yw bod plant a phobl ifanc: A) yn cael eu caru, eu bod yn ddiogel ac yn cael eu meithrin; B) yn meddu ar yr hyn sydd ei angen arnynt (caledi materol); C) yn hapus ac yn iach; D) yn dysgu ac yn datblygu; E) yn cael eu derbyn, eu parchu a'u cysylltu; F) ac yn cael eu cynnwys a'u grymuso.

Cwmpas y strategaeth

Drwy'r Comisiynydd Plant, cyfwelwyd â phlant. Mae'r canlyniadau a gynhwysir yn y Strategaeth Lles yn ffrwyth uniongyrchol y cyfweiliadau hyn, gan gynnwys ehangu ffocws i gynnwys pynciau fel bwlio a pherthnasoedd rhwng teuluoedd a'r amlinelliad rhwng plant ac ieuencid.

Er bod gan bob un o'r chwe chanlyniad yn y Strategaeth Lles ei gyfres ei hun o ddangosyddion,⁴ yng Nghanlyniad B 'mae gan blant a phobl ifanc yr hyn sydd ei angen arnynt', y mae'r dangosyddion Tlodi Plant sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf yn eistedd a dyna'r unig ddangosyddion lle mae'n rhaid i'r llywodraeth yn ôl y gyfraith osod targedau.

Dewiswyd Ddeddf Seneddol oherwydd ystyriwyd ei bod yn gorfodi'r llywodraeth (a llywodraethau dilynol o bosibl) i ganolbwyntio ar y mater. Mae'r Ddeddf ei hun yn nodi mai ei diben yw helpu i sicrhau gostyngiad sylweddol a pharhaus mewn tlodi plant drwy annog y llywodraeth a chymdeithas i ganolbwyntio ar leihau tlodi plant; hwyluso atebolrwydd gwleidyddol yn erbyn targedau cyhoeddedig; a mynnu adrodd yn dryloyw ar lefelau tlodi plant (Swyddfa'r Cyngor Seneddol, 2018).

Mae pedwar mesur o dlodi a chaledi, y mae'n rhaid i'r llywodraeth osod targedau ar eu cyfer, yn diffinio ffocws craidd y Ddeddf. Mae dau yn ymwneud ag incwm isel (y naill yn drothwy incwm isel sefydlog, a'r llall yn un cymharol). Mae'r trydydd yn ymdrin â chaledi materol. Mae'r pedwerydd, sydd ar y gweill o hyd, yn mesur dyfalwch tlodi. Ceir mwy o fanylion am y targedau isod.

⁴ Er enghraifft, mae Canlyniad Tri: mae plant a phobl ifanc yn hapus ac yn iach, yn cynnwys dangosyddion ar ofal cyn-geni ac amlygiad cynnar i wenwynau.

Ceir hefyd gyfres o Ddangosyddion sy'n Gysylltiedig â Thlodi Plant (sy'n adlewyrchu gwaith trawsbleidiol). Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol gosod targedau ar gyfer y rhain, ond rhaid i'r Llywodraeth adrodd yn flynyddol ar un neu fwy o'r dangosyddion canlynol: fforddiadwyedd tai; ansawdd tai; ansicrwydd bwyd; presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol; achosion o dderbyn i'r ysbty y gellir eu hosgoi.

Blaenoriaethau

Mae gan Ganlyniad B bedwar maes ffocws: gwella enillion a chyflogaeth; creu system les decach ac mwy cyfiawn; gwella fforddiadwyedd, ansawdd a diogelwch tai, a helpu teuluoedd gyda chost hanfodion, ac oddi tanynt eistedda 15 polisi.⁵ Mae'r polisiau hyn yn canolbwyntio ar deuluoedd incwm isel, neu drwy eu dyluniad, teuluoedd incwm isel fydd y prif fuddiolwyr ac maent wedi'u hanelu at gyrraedd y targedau a bennwyd gan y Ddeddf.

Mae'r strategaeth Lles yn blaenoriaethu lleihau tlodi ymhellach. Y rheswm am hyn yw, er ei fod am gyflawni'r chwe chanlyniad lles i bob plentyn, maent yn blaenoriaethu rhai grwpiau sydd â'r canlyniadau gwaethaf mewn llawer o'u polisiau. Mae'r rhain yn blant sydd ag anghenion mwy,⁶ y rhai sy'n profi tlodi neu anfantaes economaidd-gymdeithasol, a'r rhai yng ngofal y Wladwriaeth neu sydd mewn cysylltiad â'r system ofal. Nod y Strategaeth Lles yw lleihau tlodi plant gan y credir y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar draws yr holl ganlyniadau lles sy'n canolbwyntio ar eu grwpiau blaenoriaeth.

Cyllideb

Diwygiwyd y Ddeddf Cyllid Cyhoeddus i ymrwymo'r Trysorlys i adrodd am yr hyn sydd wedi'i wneud i leihau tlodi plant bob blwyddyn yn adroddiad y gyllideb. Nid oes gan Ganlyniad B 'bod gan blant a phobl ifanc yr hyn sydd ei angen arnynt' uchafswm cyllideb ynghlwm wrtho, yn ôl dogfen y Strategaeth, ond asiantaeth benodol o'r llywodraeth sy'n berchen ar bob cam gweithredu ac mae gan bob un o'r camau gweithredu swm cytunedig o arian wedi'i ddyrannu iddo.

Rhoi'r strategaeth ar waith

Gwnaed newidiadau i ddeddfwriaeth, strwythurau'r llywodraeth a gweithrediad i hwyluso'r Ddeddf Lleihau Tlodi Plant. Sefydlwyd Uned Tlodi Plant (CPU) i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddeddf. Wedi'i lleoli yn Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet (DPMC) ac yn annibynnol ar unrhyw uned weithredol sengl, gall yr Uned gefnogi nifer o asiantaethau a gweithredu fel cydlynedd tuag at nodau a rennir. Yn ogystal, gan nad oes ganddi bwerau'n uniongyrchol ac am ei bod yn gweithio drwy asiantaethau eraill, mae ei lleoli yn y swyddfa uchaf yn darparu trosoledd gwleidyddol. Mae Uned Lles Plant o fewn y DPMC hefyd, sy'n eistedd ochr yn ochr â'r CPU, y maent yn gweithio'n agos gyda hwy. Mae'r CPU yn canolbwyntio ar agweddau sy'n gysylltiedig â thlodi ar y Strategaeth Lles, tra bod yr Uned Lles Plant yn gweithio'n ehangach ar draws y chwe chanlyniad.

⁵ Ychwanegwyd polisiau newydd fel ymateb i bandemig Covid-19; fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys am nad ydynt yn y ddogfen wreiddiol.

⁶ Nid yw'r Ddeddf Plant yn diffinio 'mwy o anghenion' ond mae'n cynnwys plant a'u teuluoedd sy'n wynebu nifer o faterion, megis anghenion iechyd hirdymor, neu ryngweithio lluosog â'r system gyfiawnder.

Disgwylir i'r newidiadau i'r system nawdd cymdeithasol, i raddau helaeth drwy'r 'Pecyn Teuluoedd' a gyflwynwyd o 2018 i helpu i wella incwm ar gyfer teuluoedd incwm isel a chanolig gyda phlant,⁷ gael effaith fawr ar leihau tlodi. Fodd bynnag, rhoddwyd llai o bolisïau ar raddfa fawr ar waith i ddelio â'r dangosyddion ehangach sy'n gysylltiedig â thlodi plant, ac un o rolau'r CPU yw gweithio gyda gwahanol adrannau i weithredu polisiau a fydd yn gwella'r mesurau hyn.

Mae'r rhyngweithio rhwng gwahanol asiantaethau a lefelau llywodraeth wedi'i feithrin. Mae grŵp o Brif Weithredwyr asiantaethau perthnasol yn cyfarfod yn fisol i ganolbwyntio ar dlodi plant. Mae Dirprwy Brif Weithredwyr yn cyfarfod bob pythefnos (mae tuag 20 o bobl yn mynychu'r cyfarfodydd hyn) i drafod y gwaith a'r hyn sydd ar ddod. Nod y cyfarfodydd hyn yw ystyried pob menter tlodi plant yn ei chyfanrwydd, yn hytrach na fesul adran. O dan y Dirprwyon mae rheolwyr cyffredinol pob asiantaeth. Mae'r drefn hon ar waith ers tair blynedd.

Cyfrifoldeb

Y Prif Weinidog ei hun sy'n gyfrifol am y Ddeddf yn y pen draw gan mai hi yw'r Gweinidog dros Leihau Tlodi Plant. Mae'r Uned Tlodi Plant o fewn y DPMC (ar y cyd â'r Uned Lles Plant) yn gyfrifol o ddydd i ddydd am yrru'r strategaeth yn ei blaen, yn fewnol o fewn y llywodraeth ac yn allanol.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi mai'r Gweinidog Cyllid (drwy ddarpariaethau'r Ddeddf Cyllid Cyhoeddus) sy'n gorfod adrodd i'r senedd ar dlodi plant ac – yn amlwg iawn – ar yr hyn y mae'r Trysorlys ei hun wedi'i wneud tuag at gyflawni'r nodau.

Targedau a monitro

Mae pedwar prif fesur tlodi a chaledi materol y mae'n rhaid i'r llywodraeth osod targedau ar eu cyfer. Nid yw'r targedau eu hunain yn rhan o'r Ddeddf.

Dyma'r mesurau:

- Incwm isel cyn costau tai: islaw 50% o'r incwm canolrifol ('perthynol');
- Incwm isel ar ôl costau tai: islaw 50% o'r incwm canolrifol ('sefydlog'); Mesur o galedi materol (sy'n adlewyrchu cyfran y plant sy'n byw mewn cartrefi sydd â chyfraddau caledi islaw trothwy safonol); a
- Mesur o ddyfalwch tlodi (sydd ar y gweill, i'w adrodd o 2025/26).

Yn 2017/18 y gyfradd sylfaenol ar gyfer y tri mesur cyntaf oedd 17%, 23% a 13% yn y drefn honno. Pennwyd y targedau tair blynedd ar lefel 11%, 19% a 10%; a gosodwyd y targedau 10 mlynedd ar lefel 5%, 10% a 6%, gostyngiad o fwy na hanner ar bob mesur.

Monitro

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol adrodd yn ffurfiol am gynnydd yn erbyn canlyniadau'r strategaeth. Mae'r Uned Tlodi Plant am gyhoeddi rhywbeth anffurfiol yn ystod y misoedd nesaf.


Y nod yw adnewyddu'r dangosyddion o leiaf unwaith y flwyddyn fel rhan o'r gofyniad deddfwriaethol i'r Gweinidog cyfrifol gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn flynyddol ar gynnydd yn erbyn canlyniadau'r strategaeth. Ystadegwyr annibynnol y llywodraeth sy'n asesu'r dangosyddion.

⁷ Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r Credyd Treth i Deuluoedd, cyflwyno credyd treth Dechrau Gorau, cynyddu absenoldeb rhiant â thâl, cyflwyno Taliad Ynni Gaeaf i helpu aelwydydd incwm isel i wresogi eu cartrefi, cynyddu cymorth ariannol i ofalwyr a chynyddu'r hyn sy'n cyfateb i Fudd-dal Tai Seland Newydd.

Mae Deddf Plant 2014 yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyflawni canlyniadau'r Strategaeth Lles. Roedd yr adroddiad cyntaf i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2021 a bydd yn cynnwys data ar gyfer pob un o'r canlyniadau yn ogystal â monitro a gwerthuso'r polisiau a'r camau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth Lles gyntaf.

Mae Deddf Plant 2014 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol adrodd am y Strategaeth Lles ei hun (yn hytrach na'r polisiau neu'r camau gweithredu). Mae hyn yn cynnwys diweddarau'r strategaeth sydd i'w chynhyrchu, i nodi pa bolisiau y mae'r llywodraeth wedi'u rhoi ar waith ers i'r strategaeth gael ei llunio ddiwethaf ac unrhyw gamau a gymerwyd i werthuso effeithiolrwydd y polisiau hynny.

Mae'r adroddiad cyntaf ar gynnydd yn erbyn y targedau tloidi plant yn dangos, er nad oedd rhannau o'r Pecyn Teuluoedd wedi'u gweithredu eto yn amserlen y data diweddaraf sydd ar gael, bod gan y ddau fesur tloidi cyntaf (incwm isel) ostyngiadau rhwng un a dau bwynt canran yr un o gyfraddau sylfaenol 2017/18 o 17% a 23% yn y drefn honno. Nododd yr adroddiad hefyd fod modelu'r Trysorlys yn awgrymu bod y llywodraeth ar y trywydd iawn fwy neu lai i gyrraedd ei thargedau tair blynedd, incwm isel – ond gan fod y modelu hwn wedi'i wneud cyn y pandemig, cydnabuwyd hefyd na fyddai'r amcanestyniadau hyn yn berthnasol mwyach.



Astudiaeth Achos 5

Yr Alban: Deddf Tlodi Plant (yr Alban), 2017

Cyflwyniad

Mae dewis yr Alban fel astudiaeth achos yn seiliedig ar y ffaith bod Llywodraeth yr Alban, o leiaf ers 2014, wedi ceisio targedu tlodi'n uniongyrchol ac yn benodol, ac ar y lefel uchaf. Ceir traddodiad hir o waith gwrthtlodi yn yr Alban. Dewisodd Llywodraeth yr Alban adfer y targedau tlodi plant, a ddilëwyd drwy ddiddymu adran o Ddeddf Tlodi Plant y DU 2010, yn Neddf Diwygio Lles a Gwaith 2016, gan gynnwys y targedau ar sail incwm ar gyfer tlodi plant. Gwelodd yr Alban lefelau tlodi plant yn gostwng yn raddol dros gyfnod hir o ddechrau'r 2000au, gan adael cyfradd tlodi chwe phwynt canran yn is na chyfartaledd y DU (Aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog, 2021).

Y strategaeth yw Deddf Tlodi Plant (yr Alban) 2017. Nod y Ddeddf yw lleihau tlodi plant yn benodol ar fesur incwm isel, ac mae ganddi sawl mesur arall sy'n adlewyrchu gwahanol agweddau ar dlodi. Nid yw'r Ddeddf yn nodi unrhyw fanylion ynghylch sut y cyflawnir y targedau hyn, a chyflenwir hyn drwy'r gofyniad i Weinidogion yr Alban gyhoeddi cynlluniau cyflawni tlodi plant yn 2018, 2022, 2026, ac adrodd ar y cynlluniau hynny (ac yn wir y targedau) bob blwyddyn. Mae'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r strategaeth yn glir, a chafwyd nifer o adroddiadau monitro annibynnol yn asesu cynnydd, y gellir eu defnyddio i ddod i gasgliadau ynghylch pa mor effeithiol yw'r strategaeth.

Er bod hon yn strategaeth a grëwyd gan y llywodraeth genedlaethol, sydd hefyd yn gyfrifol am gyrraedd y targedau, mae'r Ddeddf hefyd yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd adrodd ar y cyd bob blwyddyn ar weithgarwch y maent yn ei gymryd, ac y byddant yn ei gymryd, i leihau tlodi plant. Crëwyd grŵp 'partneriaid cenedlaethol', gan gynnwys rhanddeiliaid anllwywodraethol, hefyd i ddarparu arbenigedd ac arweiniad.

Cyd-destun a gwreiddiau

Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban 'Fairer Scotland Action Plan' – a hwnnw o ganlyniad i 'sgwrs' *Fairer Scotland*, ymgynghoriad cenedlaethol ar sut i wneud yr Alban yn decach. Roedd hwn yn cynnwys mewnbwn gan y Comisiwn Gwirionedd Tlodi, sy'n ceisio sicrhau bod y rhai sydd â phrofiad byw o dlodi a/neu yr effeithir arnynt gan benderfyniadau polisi sy'n ymwneud â thlodi, yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau. Mae rhoi terfyn ar dlodi plant yn un o bum nod agenda *Fairer Scotland* ac ystyriwyd bod gwneud tlodi plant yn Ddeddf yn ymateb i ddileu targedau'r DU.

Yn 2015, cyhoeddodd Cynghorydd Annibynnol y Prif Weinidog ar Dlodi ac Anghydraddoldeb adroddiad a hysbyswyd gan dystiolaeth ymchwil a safbwyntiau rhanddeiliaid ledled yr Alban o'r enw '*Shifting the Curve*'. Roedd hwn yn canolbwyntio ar gynyddu incwm, yn bennaf drwy waith (gwell cyflogau ac oriau gwaith), a lleihau gwariant, drwy edrych ar gostau tai, gofal plant a thanwydd.

Derbyniwyd y Ddeddf yn unfrydol (gyda chefnogaeth pob plaid), ac mae'n ymgais i ddatgan ymrwymiad y wladwriaeth yn gyhoeddus a sicrhau bod lleihau tlodi yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Mae gwahaniaethau amlwg ym meysydd cymhwysedd datganoledig a phwerau cyllidol rhwng Cymru a'r Alban, a nifer fwy o feysydd polisi datganoledig (fel troseddu a chyfiawnder) gan yr Alban. Cynyddodd y gwahaniaeth rhwng y ddwy wlad gyda Deddf yr Alban 2016, pan gafodd yr Alban fwy o alluoedd i godi trethi a phwerau lles. Mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth i Lywodraeth yr Alban dros feysydd polisi a allai gael effaith uniongyrchol ar gyfraddau tlodi. Mae'r gwahaniaeth hwn mewn cyd-destun yn hanfodol ar gyfer manylion polisi, ond gall fod yn llai felly o ran y strategaeth ei hun.

Cwmpas a dyluniad

Diffiniad tlodi

Mae Llywodraeth yr Alban yn diffinio tlodi fel rhywbeth sydd 'yn sylfaenol am ddiffyg incwm'. Dyna pam mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar fesurau incwm ac mae'r llywodraeth wedi dewis anelu'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu at gynyddu incwm teuluoedd neu leihau costau (Llywodraeth yr Alban, 2018, t7).

Cwmpas y strategaeth a'r blaenoriaethau

Mae sylwedd y strategaeth wedi'i gynnwys yn ei chynlluniau gweithredu. Cyflwynwyd y cyntaf o'r rhain, 'Every child, every chance: the Tackling Child Poverty Delivery Plan 2018–22' gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau, Nawdd Cymdeithasol a Chydraddoldeb, y Dirprwy Brif Weinidog, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Sgiliau. Mae'n canolbwyntio ar yr hyn a ystyrir yn dri sbardun allweddol i dlodi, sef: incwm annigonol o waith ac enillion, costau byw uchel ac incwm annigonol o nawdd cymdeithasol.

Er bod y ffocws ar leihau tlodi'n benodol drwy gynyddu incwm neu leihau costau, mae rhai polisiâu yn y cynllun gweithredu i leihau effeithiau tlodi a gwella ansawdd bywyd.

Mae gan y cynllun gweithredu bedwar pennawd pwnc ac un pennawd sy'n gysylltiedig â phrosesau. Mae'r polisiâu a gynhwysir o dan bob pennawd yn eang eu cwmpas ac mae llawer yn canolbwyntio ar 'deuluoedd â blaenoriaeth' sydd mewn perygl mawr o dlodi. Disgrifir llawer ohonynt fel rhai sy'n cynnig cymorth newydd neu estynedig. Dyma'r penawdau a detholiad o'r polisiâu oddi tanynt:

- **Gwaith ac enillion:** cymorth cyflogaeth i rieni; cynyddu cyflog isel; cronfa datblygu gweithlu hyblyg; cymorth newydd ar gyfer cydraddoldeb yn y gwaith;
- **Costau byw:** dysgu cynnar a gofal plant; tlodi tanwydd a chostau tai; gwneud y mwyaf o incwm a'r premiwm tlodi; credyd fforddiadwy;
- **Nawdd cymdeithasol:** Taliad Plant yr Alban; grant dechrau gorau; cymorth i ofalwyr; grant swydd; cymorth costau angladd; a
- **Helpu teuluoedd mewn ffyrdd eraill:** Rhaglen Cymdogaethau Plant; sicrhau bod lwfans cynhaliaeth addysg (EMA) ar gael; cymorth dysgu i deuluoedd sipsiwn/teithwyr sydd â phlant; cymorth i fynd i'r afael â bwlio; mynediad at addysg gerddorol; adnoddau ar gyfer plant anabl, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Nod y cynllun gweithredu yw cryfhau'r broses o gyflawni partneriaethau ac mae'n gwneud lefelau eraill o lywodraeth yn gyfrifol am weithio tuag at y targedau tlodi plant. Er enghraifft, disgwyl i gytundebau twf rhanbarthol ganolbwyntio ar leihau tlodi ac ariannu cydgysylltydd tlodi plant cenedlaethol newydd yn y Gwasanaeth Gwella (sefydliad gwella cenedlaethol ar gyfer llywodraeth leol yn yr Alban) i helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau cynllunio ac adrodd statudol newydd.

Cyllideb

Nid oes gan y Ddeddf a'r cynllun gweithredu presennol gyllideb benodol ynghlwm wrthynt. Mae llawer o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu wedi'u costio a'u dyrannu i gyllideb, ac i eraill roedd y gyllideb derfynol i'w phennu o hyd pan gyhoeddwyd y cynllun gweithredu. Dyrannwyd cyllid i rai o'r camau gweithredu o gronfa £50 miliwn 'Tackling Child Poverty Fund', ond eitemau llai yn bennaf yw'r rhain o fewn y cynllun gweithredu gan mai bwriad y gronfa hon yw cefnogi arloesedd ac mae'n ychwanegol at gyllidebau craidd (er enghraifft, y gyllideb nawdd cymdeithasol). Mae llywodraeth yr Alban yn amcangyfrif bod tua £672 miliwn wedi'i fuddsoddi yn 2019/20 mewn rhaglenni a gyfeiriwyd at aelwydydd incwm isel gyda phlant (Llywodraeth yr Alban, 2020).

Rhoi'r strategaeth ar waith

Crëwyd y strategaeth fel Deddf i sefydlu tlodi plant fel blaenoriaeth ac fel ffocws i swyddogion y llywodraeth, ac i ddal y llywodraeth genedlaethol yn atebol. Mae'r gofyniad i gyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol yn amlygu meysydd lle nad oes cynnydd yn cael ei wneud. Credir bod targedau uchelgeisiol yn gorfodi gweithredu.

Mae'r Ddeddf yn effeithio ar lywodraeth leol drwy'r rhwymedigaeth statudol i gyflwyno adroddiad blynyddol, sy'n golygu bod awdurdodau lleol yn cymryd mwy o ran ac yn gorfod meddwl sut y gallant gyfrannu at y targedau lleihau tlodi plant. Mae bodolaeth y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i swyddogion awdurdodau lleol gymryd mwy o gamau o fewn eu hawdurdodau lleol.

Darperir cymorth ac arweiniad gan bartneriaid cenedlaethol y sector cyhoeddus a'r trydydd sector (sy'n cynnwys llywodraeth yr Alban, lechyd Cyhoeddus yr Alban, Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban (COSLA), Grŵp Gweithredu Tlodi Plant (CPAG), y Gynghrair Tlodi, Uned Ymchwil Tlodi ac Anghydraddoldeb yr Alban ym Mhrifysgol Glasgow Caledonian (SPIRU) a'r Gwasanaeth Gwella), gan gynnig adborth i awdurdodau lleol ar gynlluniau gweithredu a fframwaith y gallant ei ddefnyddio i elwa ar yr wybodaeth am dlodi plant sy'n bodoli ledled yr Alban.

Mae'r strategaeth wedi ceisio ymgorffori camau gweithredu ar dlodi plant a chynhwysiant yn fwy cyffredinol ar wahanol lefelau o lywodraeth yn yr Alban. Mae hefyd wedi ceisio ymgorffori monitro a gwerthuso drwy'r broses fel y gall cynlluniau gweithredu yn y dyfodol, yn lleol ac yn genedlaethol, ddysgu o'r cynlluniau gweithredu presennol.

Cyfrifoldeb

O'i Rhaglen Lywodraethu flynyddol gyntaf (yn 2014), mae'r Prif Weinidog wedi nodi ei hymrwymiad hi, a llywodraeth yr Alban, i leihau tlodi. Mae targedau clir ar gyfer y llywodraeth genedlaethol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a llywodraeth leol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Nawdd Cymdeithasol a Phobl Hŷn sydd â'r cyfrifoldeb gweinidogol. Er ei bod yn ofynnol i lywodraeth leol a Byrddau lechyd ddangos eu hymrwymiad drwy gynlluniau gweithredu, ni ddisgwylir iddynt ddangos eu bod wedi cyrraedd y targedau cenedlaethol. Un o'r beirniadaethau a wnaed o'r strategaeth yw nad oes cysylltiad digon agos rhwng camau gweithredu a thargedau (Congreve, 2020).

Nid oes rheidrwydd ar y llywodraeth genedlaethol i adolygu'r cynlluniau gweithredu lleol – eleni maent yn cael eu hadolygu gan SPIRU, ond mae hynny drwy gyfundeb â'r Llywodraeth. Mewn adolygiad blaenorol, nodwyd bod y cynlluniau gweithredu mewn llawer o achosion wedi'u cymeradwyo gan brif weithredwr awdurdodau lleol, gan ddangos bod y rhain mewn gwirionedd yn cael eu blaenoriaethu.

Targedau a monitro

Mae gan y Ddeddf bedwar mesur:

- 60% o incwm canolrifol y flwyddyn gyfredol ar ôl costau tai: tldodi 'perthynol';
- 60% o incwm canolrifol y flwyddyn sylfaen (2010/11 ar hyn o bryd) ar ôl costau tai: tldodi 'absoliwt';
- 70% o'r incwm canolrifol ar ôl costau tai ac yn methu â fforddio nifer o nwyddau a gwasanaethau sylfaenol; a
- tldodi parhaus, sef plant sy'n byw mewn tldodi perthynol am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Y gyfradd sylfaenol yn 2016/17 oedd 23%, 20% ac 11% ar gyfer y tri mesur cyntaf, ac ar gyfer tldodi parhaus, roedd yn 10% rhwng 2012 a 2016. Targedau interim 2023/24 yw 18%, 14%, 8%, ac 8%; a thargedau terfynol 2030 yw 10% ar gyfer y mesur tldodi perthynol a 5% ar gyfer y tri arall.

Monitro

Caiff y targedau hyn eu monitro'n flynyddol. Fodd bynnag, mae cyflwyno ystadegau swyddogol yn arferol yn golygu na fydd data ar gyfer 2023 yn cael ei gyhoeddi tan wanwyn 2025. Mae'r adroddiad cynnydd cyflawni hefyd yn edrych ar bob polisi a rhaglen a dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hyd yma, ac mae monitro a gwerthuso wedi'u cynnwys mewn llawer o'r ymyriadau felly ceir adroddiadau ehangach na dim ond ar y prif dargedau.

Mae rhai camau gweithredu ar y cynllun cyflawni yn ddatganiadau am gomisiynu ymchwil bellach neu ddechrau cynlluniau peilot, a allai gael eu cyflwyno yn y dyfodol neu beidio.

Sefydlwyd Comisiwn Tldodi ac Anghydraddoldeb er mwyn rhoi cyngor annibynnol i Weinidogion yr Alban ar dldodi ac anghydraddoldeb, monitro cynnydd a chynnig atebion i dldodi. Mae'r comisiwn yn cyhoeddi ei adroddiad monitro 'Cynllun Cyflawni Tldodi Plant' ei hun, sydd ar wahân i'r adroddiad cynnydd a gyhoeddir gan y llywodraeth (er ei fod yn ei hysbysu). Mae'r comisiwn hefyd wedi cyhoeddi adolygiad o gynlluniau gweithredu'r awdurdod lleol ac eleni bydd SPIRU yn adolygu cynlluniau gweithredu'r awdurdod lleol.

Yn adroddiad cynnydd yr ail flwyddyn, roedd 56 o'r 58 o gamau gweithredu yr adroddwyd arnynt yn flaenorol ar y gweill neu'n cael eu cyflawni. Fodd bynnag, mae dau o'r polisiau mwy, sef talu Taliad Plant yr Alban (taliad wythnosol o £10 ar gyfer pob plentyn o dan chwech oed), a'r cynnydd yn nifer yr oriau gofal plant am ddim (o 600 awr i 1,140 awr y flwyddyn), wedi'u gohirio oherwydd y pandemig.⁸ Er bod dau adroddiad cynnydd bellach wedi'u cyhoeddi sy'n manylu ar gynnydd ar bob elfen o'r cynllun, mae'n rhy fuan i ddweud a oes digon yn cael ei wneud i'r targedau gael eu cyrraedd gan mai dim ond blwyddyn o ddata sydd ar gael. Mae'r ail adroddiad cynnydd ar y cynllun gweithredu yn dangos bod tldodi yn 2018/19 wedi aros yr un fath yn fras, er gwaethaf rhagolygon annibynnol a ragwelodd y byddai'n codi (Llywodraeth yr Alban, 2020).

⁸ Bydd yn cael ei gyflwyno ym mis Awst 2021 yn lle mis Awst 2020.

3. Dadansoddiad o'r strategaethau gwrthdodi

Mae'r bennod hon yn dadansoddi astudiaethau achos y strategaeth gwrthdodi gyda dau nod mewn golwg. Y cyntaf yw creu rhestr well o nodweddion strategaeth dda, gan ddefnyddio'r rhestr a nodir ym mhennod 1 yn fan cychwyn. Yr ail yw nodi pa rôl y mae'r strategaeth ei hun yn ei chwarae, yn wahanol i'r camau gweithredu a'r mentrau oddi tani. Os nad rhestr neu gasgliad yn unig mo strategaeth, beth ydyw – a pha rôl y mae'n ei chwarae? Er mwyn helpu gyda'r tasgau hyn, mae'r bennod yn dechrau drwy gyflwyno crynodeb o ystadegau a nodweddion allweddol y pum strategaeth ar ffurf tabl.

Drwy gydol y bennod hon, cyfeirir at y pump fel strategaethau Toronto, BW (Baden-Württemberg), CLM (Castilla La Mancha), NZ (Seland Newydd) a'r Alban.

Nodweddion allweddol y pum strategaeth

Mae Tabl 4 yn cyflwyno asesiad o rai ystadegau a nodweddion allweddol o'r pum strategaeth. Dyma nhw:

- hyd (y strategaeth a'i chynlluniau gweithredu);
- graddfa (nifer y camau gweithredu a'r mentrau);
- cwmpas a ffocws y boblogaeth (y syniad cyffredinol sy'n rhoi cydlyniad i'r strategaeth, yn ogystal ag a oes ffocws ar grŵp penodol);
- targedau;
- monitro (boed hynny ar allbynnau strategaeth neu ganlyniadau strategaeth);
- chyfrifoldeb gwleidyddol.

Gellid meddwl mai peth syml fyddai canfod gwybodaeth sy'n ymddangos yn sylfaenol fel hyn, ond mewn gwirionedd, nid felly y bu. O ganlyniad, mae cofnodion yn y rhan fwyaf o resi yn adlewyrchu barnau y bu'n rhaid i'r awduron eu gwneud. Esbonnir y rhain yn y drafodaeth sy'n dilyn.

Hyd

Ar yr wyneb, mae'r cyfnodau'n amrywio'n eang, o flwyddyn i BW, pedwar ar gyfer CLM, hyd at 20 mlynedd ar gyfer Toronto. Nid oes terfyn amser ar strategaethau'r Alban a NZ, a chyda thargedau wedi'u gosod ar gyfer diwedd y 2020au, maent yn anelu at bara o leiaf deng mlynedd. Ni welwyd eto a fyddant mor wahanol i'w gilydd yn y pen draw. Soniwyd am bosibilrwydd estyniad ar gyfer BW a CLM. Nid oes strategaeth hyd yma yn fwy na chwe blwydd oed.

Mae gan bob un ond BW gynlluniau gweithredu pedair neu bum mlynedd. Weithiau mae hyn yn cyfateb i'r cylch etholiadol (Toronto, CLM) ond nid bob tro (mae etholiadau cyffredinol NZ bob tair blynedd). Toronto yw'r unig un sydd wedi symud i ail gynllun gweithredu.

Graddfa

Mae nifer y camau gweithredu neu fentrau ar gyfer pob strategaeth yn seiliedig ar y rhai a adroddwyd yn y cynllun gweithredu diweddaraf. Mae strategaeth BW yn cynnwys un fenter; dangosir bod un NZ yn cynnwys 15; mae gan y lleill rhwng 50 a 60.

Tabl 4. Nodweddion allweddol y strategaethau

Nodwedd	Toronto	Baden- Württemberg	Castilla La Mancha	Seland Newydd	Yr Alban
Am ba hyd y mae'r strategaeth yn rhedeg?	2015 i 2035	2020	2017 i 2020	O 2018 ymlaen	O 2017 ymlaen
Hyd y cynllun gweithredu cyfredol/diweddar	Pedair blynedd	1 flwyddyn	Pedair blynedd	Anghyfyngedig	Pedair blynedd
Faint o fentrau/camau gweithredu y mae'r cynllun yn eu cynnwys?	55	1	58	15	58
Grŵp poblogaeth o ddiddordeb	Pawb	Plant	Pawb	Plant	Plant
Beth yw syniad cyffredinol y strategaeth?	Pum thema	Cyfleoedd bywyd	Cynhwysiant cymdeithasol	Tlodi plant	Tlodi plant
A yw lleihau tlodi yn darged strategaeth?	Nac ydy	Nac ydy	Ydy	Ydy	Ydy
Beth fu ffocws monitro hyd yn hyn?	Allbynnau	Allbynnau	Allbynnau	Canlyniadau	Canlyniadau
Pa lefel o wleidydd sy'n gyfrifol am y strategaeth?	Cynghorydd Eiriolwr Tlodi	Y Gweinidog Lles Cymdeithasol	Y Gweinidog Llesiant Cymdeithasol	Y Prif Weinidog	Ysgrifennydd y Cabinet

Mae'r cyfrif ar gyfer NZ wedi'i gyfyngu i'r camau gweithredu a'r mentrau yn y rhan o'r cynllun gweithredu Lles Plant a Phobl Ifanc sy'n ymwneud â'r canlyniad y dylai 'plant a phobl ifanc gael yr hyn sydd ei angen arnynt'. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd y trefnir y cynllun, gyda'r holl gamau gweithredu sy'n berthnasol i'r gyfradd tlodi (a dim sy'n amherthnasol iddi) wedi'u casglu at ei gilydd mewn un lle.

Nid yw'r cyfrif ar gyfer Toronto yn cynnwys camau gweithredu ar dai gan fod y rhain bellach wedi'u cofnodi o fewn cynllun gweithredu'r strategaeth dai. Nid yw ond yn cynnwys camau gweithredu a mentrau sydd wedi'u cynllunio (er nad ydynt o reidrwydd wedi'u hariannu). Pe bai'r rhai a nodwyd yn rhai sydd 'ar y gweill' yn cael eu cynnwys, byddai cyfrif Toronto yn codi i bron i 90.

Mae'r cyfrifiadau ar gyfer strategaethau'r Alban a CLM yn cynnwys yr holl gamau gweithredu a mentrau yn y cynllun gweithredu. O'r 58 o gamau gweithredu yn yr Alban, amcangyfrifwn fod 16 'i'w cadarnhau' mewn rhyw ystyr. Nid oedd pedwar o 58 o gamau gweithredu CLM wedi'u rhoi ar waith yn 2017, gyda diffyg data ar 15 arall. Wedi'i fesur fel hyn, mae strategaeth yr Alban dipyn yn llai nag un CLM, sydd yn ei thro'n llai nag un Toronto.

Cwmpas a ffocws y boblogaeth

Un agwedd allweddol ar syniad cyffredinol pob strategaeth yw pa mor dynn y mae'n cyfyngu ar gwmpas y strategaeth. Y ddwy strategaeth dynnaf yw un NZ, sy'n canolbwyntio ar les materol plant, ac un BW, am gyfleoedd bywyd plant mewn teuluoedd tlawd. Fel yr esboniwyd uchod, mae tyndra strategaeth NZ yn adlewyrchu'r gwaith o adrannu'r Strategaeth ehangach ar gyfer plant a Lles. Mae strategaeth Toronto, a ddiffinnir gan ei phum 'argymhelliad' (sefydlogrwydd tai, mynediad at wasanaethau, tegwch trafniadaeth, mynediad at fwyd, swyddi o ansawdd) wedi'i amlinellu'n llym ond yn eang.

Gellir deall y syniad y tu ôl i strategaeth CLM naill ai fel cynhwysiant cymdeithasol neu fel cysyniad eang o dlodi sy'n mynd y tu hwnt i amddifadedd materol ac incwm isel i gynnwys, er enghraifft, mynediad at adnoddau. Gellir ystyried strategaeth yr Alban fel un sy'n croesi rhwng strategaethau CLM a NZ, gydag ehangder CLM a ffocws NZ ar dlodi plant.

Targedau

Er nodwyd bod cyfraddau tlodi uchel a/neu gynyddol ym mhob un o'r pum achos ymhlith y rhesymau dros gyflwyno strategaeth gwrthdlodi, dim ond strategaethau CLM, NZ a'r Alban sy'n cynnwys targedau ar gyfer y gyfradd dlodi. Mae Tabl 5 yn crynhoi'r mesurau tlodi y gosodwyd targedau ar eu cyfer. Yn NZ a'r Alban, nodwyd y mesurau mewn deddfwriaeth. Mae'r tair strategaeth i gyd yn defnyddio cymysgedd o galedi neu amddifadedd materol ac incwm isel. Y prif wahaniaeth rhwng y tair yw bod strategaethau CLM a NZ yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud ag incwm isel iawn, ond nid yw un yr Alban (er bod ystadegau ar gyfer y niferoedd sy'n is na 50% o'r canolrif yn cael eu cyhoeddi).

Monitro

Mae Tabl 4 yn dangos a yw monitro'r strategaeth hyd yma wedi canolbwyntio ar allbynnau (hynny yw, nifer y camau gweithredu neu fentrau strategaeth sydd wedi'u rhoi ar waith) neu ar ganlyniadau (nifer y bobl y maent wedi effeithio arnynt a/neu i ba raddau yr effeithiwyd ar brofiadau'r bobl hynny).

Mae adroddiadau monitro ar gyfer strategaethau CLM, NZ a'r Alban i gyd yn cynnwys ystadegau ar gyfer y mesurau tlodi a dargedwyd. Y rhain yw'r sail i fonitro canlyniadau, ond mae angen eu dehongli i fod yn ystyrion (dychwelwn at hyn isod). Hyd yn hyn, dim ond monitro NZ a'r Alban sy'n dangos dyfnder trafod angenrheidiol (yn ein barn ni). Pan gyhoeddir yr adolygiad cyfredol o strategaeth CLM, mae hefyd yn debygol o fod yn gymwys.

Mae adrodd ar gynnydd strategaethau BW a Toronto wedi canolbwyntio ar nifer y mentrau sydd wedi'u rhoi ar waith (sy'n golygu yn BW nifer yr ardaloedd sydd wedi ymateb drwy greu rhwydwaith atal lleol). Roedd adroddiad monitro cychwynnol CLM hefyd yn cyfrif camau gweithredu a mentrau a roddwyd ar waith.

Cyfrifoldeb gwleidyddol

A hithau'n ddeiliad y portffolio tlodi plant, a'r Uned Tlodi Plant wedi'i gosod yn ei swyddfa hi, y Prif Weinidog sy'n ddiamwys gyfrifol am strategaeth NZ. Y Gweinidog Lles Cymdeithasol sy'n gyfrifol am strategaeth BW. Byddem yn dadlau bod y gair 'diamwys' hefyd yn berthnasol yma oherwydd gall y Weinyddiaeth Lles Cymdeithasol fynd ar drywydd y strategaeth hon ar ei phen ei hun.

Yn y tri achos arall, er ei bod yn amlwg pwy sy'n gyfrifol mewn enw – Ysgrifennydd y Cabinet dros Nawdd Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yn yr Alban; y Gweinidog Lles Cymdeithasol yn CLM; a Chynghorydd Dinas a ddynodwyd yn 'eiriolwr tlodi' yn Toronto – nid yw'n glir beth mae 'cyfrifoldeb' yn ei olygu. Er enghraifft, Gweinyddiaeth Lles Cymdeithasol CLM sy'n gyfrifol am gydlynu, ond gweinyddiaethau eraill sy'n gyfrifol am lawer o gamau gweithredu a mentrau unigol. Roedd y cyfrifoldeb am strategaeth Toronto yn gorwedd ar y dechrau gyda Dirprwy Faer (yr adroddodd y Tîm Lleihau Tlodi yn uniongyrchol iddo). O dan y trefniadau presennol, lle mae'r eiriolwr tlodi yn aelod cyffredin o Gyngor y Ddinas, ni all 'cyfrifoldeb' olygu'r un peth.

Tabl 5. Y mesurau tlodi y mae targedau ynghlwm wrthynt

Strategaeth	Mesurau y gosodwyd targedau ar eu cyfer
Castilla La Mancha	Tlodi ac allgáu cymdeithasol: llai na 60% o incwm canolrifol a/neu amddifadedd materol difrifol a/neu ddwysedd gwaith isel Tlodi difrifol: llai na 30% o incwm canolrifol y flwyddyn gyfredol Plant mewn amddifadedd materol difrifol Tlodi ynni (tanwydd) Dwysedd gwaith isel
Seland Newydd (plant yn unig)	Incwm isel: llai na 50% o incwm canolrifol y flwyddyn gyfredol cyn costau tai Incwm isel: llai na 50% o incwm canolrifol 2017/18 ar ôl costau tai Caledi materol Caledi parhaus (mesur ar y gweill)
Yr Alban (plant yn unig)	Incwm isel: llai na 60% o incwm canolrifol y flwyddyn gyfredol ar ôl costau tai Incwm isel: llai na 60% o incwm canolrifol 2010/11 ar ôl costau tai Incwm isel (islaw 70% ar ôl costau tai) ac amddifadedd materol Tlodi parhaus

Goblygiadau ar gyfer nodweddion strategaeth dda

Gan ddefnyddio'r trosolwg hwn o'r pum strategaeth fel ffynhonnell ein tystiolaeth, gallwn yn awr awgrymu sut mae mireinio'r rhestr o nodweddion strategaeth dda a nodir ym mhennod un. Crynhowyd y nodweddion yno fel ymrwymiad lefel uchel, atebolrwydd, cyfranogiad a chyfathrebu, blaenoriaethu, deall a monitro. Mae'r gwelliannau a gyflwynir yma yn cyfeirio at ymrwymiad, blaenoriaethau, deall a monitro.

Ymrwymiad

Os yw'r cyfrifoldeb yn perthyn i'r Prif Weinidog, gyda thîm pwrpasol i yrru'r strategaeth yn ei swyddfa, yna mae ymrwymiad lefel uchel y tu hwnt i amheuaeth. Ond a yw ymrwymiad ar y lefel uchaf bob amser yn angenrheidiol? Mae strategaeth BW, y gall y Weinyddiaeth Lles Cymdeithasol ei gweithredu ar ei phen ei hun, yn awgrymu efallai na fydd. Ar y llaw arall, mae amgylchiadau arbennig yr eithriad hwn yn atgyfnerthu'r ymdeimlad bod **yn rhaid i unrhyw strategaeth sy'n cynnwys mwy nag un weinyddiaeth, naill ai'r Maer neu'r Prif Weinidog eu hunain, neu ddirprwy efallai, fod yn gyfrifol**. Mae'n amlwg hefyd bod yn rhaid i'r Gweinidog Cyllid fod yn ymrwymedig. Mae'n debyg bod yr amodiad y dylai Gweinidog Cyllid Seland Newydd adrodd i'r Senedd ar gynnydd tuag at y targedau tldi yn fanylyn trawiadol.

Blaenoriaethu

Pwysleisiodd dau o'r arbenigwyr yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr ymchwil ar gyfer y prosiect hwn bwysigrwydd blaenoriaethu ('os nad yw strategaeth yn blaenoriaethu nid strategaeth mohoni'). Y cwestiwn yw sut y dylai strategaeth ddangos ei blaenoriaethau. Yn seiliedig ar y dystiolaeth yma, ein casgliad yw y dylid trefnu'r strategaeth fel bod popeth ynddi'n flaenoriaeth.

A dim ond un cam gweithredu ynddi, mae strategaeth BW yn bodloni'r amod hwn yn ddiraffferth. O ganlyniad i'r ffordd y caiff ei threfnu, felly hefyd strategaeth NZ. Nid oes amheuaeth ynghylch strategaeth a gyflwynir fel hyn: y rhannau a'r cyfan yw'r flaenoriaeth. I'r gwrthwyneb, mae un sy'n cynnwys blaenoriaethau ac agweddau di-flaenoriaeth yn gwahodd amheuan ynghylch camau gweithredu unigol a'r strategaeth yn ei chyfanrwydd.

Rhaid i strategaeth lle mae popeth ynddi'n flaenoriaeth fod yn gydlynol – rhaid cysylltu camau gweithredu ag amcanion pendant, a rhaid i amcanion gwahanol gael rhywfaint o undod rhyngddynt – a chryno. Ni welwn pam y dylai hyn ddiystyru ystod o amcanion (fel 'argymhellion' Toronto), ar yr amod bod rhesymeg i'r hyn sy'n cael ei wneud. Nid yw'n glir a all strategaeth i leihau tldi hefyd liniaru rhai o'r problemau sy'n mynd law yn llaw ag ef ('camau lliniaru'). Fodd bynnag, nid oes angen i strategaeth gwrthdlodi llywodraeth fod ei hunig strategaeth i gynnwys camau gweithredu yn erbyn tldi.

Deall a monitro

Ystyrir bod monitro canlyniadau (neu effeithiau) yn nodwedd ar strategaeth dda. Nid yw tair o'r strategaethau yma wedi ceisio gwneud hyn hyd yma, ac nid yw'r ddwy arall wedi bod yn casglu data'n ddigon hir i wybod beth sy'n digwydd i'r gyfradd tldi. Mae'r cyfeiriad teithio yn y ddau achos yn gadarnhaol, ond mae angen ychydig mwy o flynyddoedd o ddata i gymryd safbwynt pendant. Mae'r Alban wedi modelu'r hyn a fyddai wedi digwydd i dlodi plant pe na fyddai camau wedi'u cymryd, felly mae ganddynt rywbeth i gymharu eu data ag ef pan fydd ar gael. Mae NZ a'r Alban yn wynebu'r broblem ychwanegol a achoswyd gan bandemig y Coronafeirws: efallai y bydd yn anodd deall yr hyn sy'n digwydd i dlodi tan ychydig flynyddoedd ar ôl 'diwedd' y pandemig.

Yr hyn y mae'r holl strategaethau wedi'i fonitro, fodd bynnag, yw allbynnau. Hynny yw, nifer y camau gweithredu a'r mentrau sydd wedi'u rhoi ar waith. Deuwn at y casgliad bod monitro canlyniadau nid yn unig yn anodd yn ymarferol, ond ei fod hefyd yn colli agwedd ar lywodraeth sy'n bwysig i wleidyddion a'r cyhoedd. Yr agwedd honno yw gwerth gwneud rhywbeth, ni waeth sut – yn y lle cyntaf o leiaf – y mae'n gweithio yn y pen draw. Mae hyn yn golygu bod gwerth i fonitro allbwn ynddo'i hun ac nad yw'n cymryd lle monitro canlyniadau yn unig. Mae hefyd yn angenrheidiol oherwydd na fydd monitro canlyniadau (gan ddefnyddio arolygon cenedlaethol o leiaf) yn arwain at ganlyniadau ym mlynnyddoedd cyntaf strategaeth ac mae angen o leiaf rywfaint o ddealltwriaeth o faint o'r strategaeth/cynllun gweithredu sydd wedi'i roi ar waith.

Mae'r gwerth a osodir ar wneud pethau'n cynyddu'r risg y cânt eu gwneud yn wael. Nid monitro canlyniadau ar ôl y digwyddiad yw'r gwrthwenwyn i hynny, ond cynllunio da o'i flaen. Mae deall sut i wneud pethau'n dda yn hanfodol. Nid yw camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio'n dda yn gwarantu y bydd strategaeth dlodi yn gweithio'n dda, ond mae rhai sydd heb eu cynllunio'n dda yn ei gwneud yn debygol iawn na fydd yn gweithio'n dda o gwbl.

Mae cysylltiad rhwng un elfen o gynllunio a monitro canlyniadau. Un o elfennau allweddol monitro canlyniadau yw amcangyfrif yr hyn a fyddai wedi digwydd (i dlodi plant, er enghraifft) pe na bai'r cam gweithredu neu'r strategaeth wedi'i gweithredu. Ond mae'r honiad anghywir hwn, fel y'i gelwir, hefyd yn elfen allweddol yn y cam cynllunio, lle mae'n chwarae rhan y llinell sylfaen neu'r ffon fesur ar gyfer mesur yr effaith a ragwelir (ar dlodi plant) gan gam gweithredu arfaethedig ac asesu doethineb y cam gweithredu.

Mae cynllunio gwaith monitro canlyniadau yn bwysig ond dim ond ar ôl i ddigon o amser fynd heibio i dystiolaeth o'i effaith ddod i'r amlwg y daw'n bwysig.

Tan hynny, yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod camau gweithredu strategaeth wedi'u cynllunio'n dda, yn gallu bodloni'r amcanion a bennwyd ar eu cyfer os bydd popeth yn mynd yn ôl y disgwyl, a'u bod wedi'u gweithredu'n dda. Mae monitro'n mesur llwyddiant, ond mae cynllunio a'r ddealltwriaeth ohono yn dibynnu ar wneud llwyddiant yn bosibl. Y ddau beth hyn, yn fwy na monitro, yw nodweddion strategaeth dda.

Rôl y strategaeth gwrthdlodi ei hun

Mae'r rhestr o nodweddion sy'n nodweddu strategaeth gwrthdlodi dda yn gadael cwestiwn canolog heb ei ateb: beth mae'r strategaeth gwrthdlodi ei hun yn ei wneud, yn wahanol i'r camau gweithredu a mentrau sy'n ei ffurfio? Ar ddechrau'r adroddiad, amlygwyd y ffaith nad allwn farnu a yw'n effeithiol heb gael ateb i hynny.

Mae un rôl y mae strategaeth gwrthdlodi yn ei chwarae yn ymddangos yn amlwg: mae'n ddatganiad o werthoedd ac yn arwydd o fwriad. Yn y rhan fwyaf o astudiaethau achos os nad pob un, daeth y strategaeth i'r amlwg fel ymateb i dlodi yn dod yn wleidyddol bleidiol, o gwmpas, neu yn y cyfnod cyn etholiadau. Ac eto, gellir defnyddio unrhyw bolisi gan y llywodraeth i anfon neges am werthoedd os dymunir. Felly, nid yw arwyddo'n rôl sy'n arbennig i strategaeth nac sy'n ei diffinio.

Mae'r strategaethau a astudir yma yn dangos bod rhywbeth arall. Yr hyn a ddangosant, mewn brawddeg, yw mai **rôl strategaeth gwrthdlodi yw gweithredu ar dlodi o fewn cyd-destun lle nad yw'r rhai sydd am weithredu bob amser yr un bobl a sefydliadau â'r rhai sy'n gallu gweithredu.**

Yn rhai o'r astudiaethau achos, roedd hyn yn wir hyd yn oed o fewn adrannau'r llywodraeth neu awdurdod lleol penodol. Symudwyd tlodi i fyny'r agenda ac roedd gan y rhai a oedd am weithredu fframwaith i wneud hynny.

Baden-Württemberg

Y strategaeth sy'n dangos hyn ar ei amlycaf yw un BW. Ffynhonnell yr eglurder hwn yw gwahanu'r pwerau y mae Cyfansoddiad yr Almaen yn eu gosod ar y taleithiau. Mae cyfreithiau ar lefel ffederal yn cyfyngu ar drosglwyddiadau incwm tra bod y lefel leol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau. O ganlyniad, os yw llywodraeth BW am sicrhau bod rhywbeth yn cael ei wneud am dlodi, rhaid iddi ddod o hyd i rywun arall i'w wneud. Ar ôl nodi rhwydwaith atal, er mwyn gwella cyfleoedd bywyd plant o deuluoedd tlawd, fel ei cham gweithredu dethol ar gyfer atal tlodi, rôl ei strategaeth yw annog a galluogi cynifer o 44 ardal BW i gyflwyno un ag sy'n fodlon ac yn gallu gwneud hynny.

Mae nifer y rhwydweithiau atal lleol a ddaeth i fodolaeth (allbynnau strategaeth) yn fesur o'i heffeithiolrwydd. Yn y tymor hir, ni fydd ond yn werth chweil yn ogystal ag yn effeithiol os yw'r rhwydweithiau hynny wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau'r plant y bwriedir iddynt eu helpu. Fodd bynnag, mae mesur canlyniad y strategaeth hon yn bell i ffwrdd. Yn y dyddiau cynnar hyn, sicrhau bod rhwydweithiau'n gweithio'n dda yw'r flaenoriaeth. Mae ymchwil gan Uned Ymchwil i Deuluoedd BW, sydd â'r nod o nodi ffactorau sy'n cyfrannu at adeiladu rhwydwaith llwyddiannus, wedi'i chynllunio i wneud hynny.

Nid ydym yn awgrymu bod strategaeth BW yn fodel i'w gopïo, naill ai yn ei gynnwys (er bod rhywfaint o debygrwydd i Raglen Cymdogaethau Plant yr Alban) neu ei ffurf. Y rheswm dros ei hamlygrwydd yw'r rôl glir y mae'r strategaeth yn ei chwarae, fel pont rhwng y rhai ar y naill ochr sydd am weithredu (yma llywodraeth BW) a'r rhai ar y llall sy'n gallu ei chymryd (yr ardaloedd).

Toronto

Mae strategaeth Toronto yn wynebu'r un broblem sylfaenol sef sut y gall un grŵp sydd am weithredu ar dlodi ond sydd heb adnoddau berswadio grŵp arall sy'n meddu ar y modd i weithredu i wneud hynny. Yma, mae'r ddau grŵp o fewn llywodraeth y ddinas: ar y naill ochr, mae Uned Lleihau Tlodi (PRU) yn adrodd (yn wreiddiol) i Ddirprwy Faer; ar y llall, adrannau ac asiantaethau llywodraeth y ddinas (adrannau). Mae chwe 'argymhelliad' y strategaeth yn cynrychioli'r cyfeiriadau teithio a ddymunir.

Rhyngddynt, gall Dirprwy Faer a'r Uned Lleihau Tlodi sicrhau bod materion sy'n ymwneud â thlodi ar yr agenda; bod cynigion sy'n berthnasol i dlodi yn symud o'r ymylon i'r canol; a bod cynigion o'r fath yn cael cymorth ar adegau tyngedfennol. Fodd bynnag, mae'r fenter yn parhau gydag adrannau y mae'n rhaid iddynt fod yn barod i ddefnyddio adnoddau dynol ac ariannol i ddatblygu a chynllunio cynigion. Fel BW, mae nifer y camau gweithredu a weithredir o dan y strategaeth yn fesur o'i heffeithiolrwydd, er bod yr amrywiad yn natur y camau hynny'n golygu ei fod yn fesur mwy cyfyngedig nag yn achos BW.

Seland Newydd

A hithau'n strategaeth sy'n cael ei gyrru'n ganolog, mae strategaeth NZ i'r gwrthwyneb i un Toronto; ond eto wrth geisio newid y ffordd y mae'r llywodraeth yn gweithio mewn perthynas â thlodi, maent yn rhannu rhywbeth yn gyffredin. Er gwaethaf gosod yr addewid i leihau tlodi plant mewn deddfwriaeth, a Phrif Weinidog sydd wedi ymrwymo'n glir i leihau tlodi, mae'n drawiadol bod angen strategaeth fel pont o hyd i roi pwysau ar gamau tlodi.

Wedi'i sbarduno gan Uned Tlodi Plant sydd yn adran y Prif Weinidog, mae'r strategaeth yn cynnwys ymdrech i newid y ffordd y mae gwasanaeth y llywodraeth yn deall, yn gwerthfawrogi ac yn delio â thlodi (drwy gylch rheolaidd o gyfarfodydd y Prif Weithredwr a Dirprwy Brif Weithredwr o asiantaethau'r llywodraeth). Mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth i'r Trysorlys ddatgan yr hyn y mae wedi'i wneud i leihau tlodi plant yn ei Adroddiad Cyllideb Blynyddol – math o fonitro allbwn ar gyfer strategaeth y mynegir ei thargedau fel canlyniadau a fesurir gan gyfradd tlodi is.

Castilla La Mancha a'r Alban

Nodwedd nodedig strategaethau CLM a'r Alban yw'r rhan a chwaraeir ynddynt gan sefydliadau gwrthdlodi mawr. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn CLM lle'r oedd y glymblaid o sefydliadau gwrthdlodi (EAPN-CLM) yn rym symudol wrth greu'r strategaeth yn y lle cyntaf ond sydd hefyd yn cynnal safbwynt canolog wrth fonitro'r strategaeth. Mae rhai o'i sefydliadau sy'n aelodau hefyd yn gyfrifol am gyflawni elfennau unigol o'r strategaeth. Er bod grwpiau o'r fath yn naturiol yn perthyn ymhlith y rhai sy'n pwysu am weithredu ar dlodi, mae manteision ac anfanteision yn gysylltiedig â chyfranogiad dyfnach sy'n eu cael ar ddwy ochr y bont. Mae gan y cyfranogiad hwn y fantais o'u galluogi i gynnig mewnwelediad i broblemau, profiad i gefnogi ymarfer, yn ogystal â chyflwyno rhai elfennau eu hunain. Yn erbyn hynny, fodd bynnag, mae'n codi'r cwestiwn sut y gall agosrwydd o'r fath gydfodoli â'r anghytundeb sy'n anochel yn codi pan fydd yn rhaid gwneud dewisiadau sydd, mewn ystyr go iawn, yn mynd yn groes i'r hyn y mae sefydliadau ymgyrchu ac eraill am ei weld yn digwydd.

Casgliadau

Yr hyn na ellir ei osgoi yn strategaeth BW, oherwydd gwahanu pwerau'n llym rhwng gwahanol lefelau o lywodraeth yr Almaen, yw'r realiti cyffredinol bod pob strategaeth gwrthdlodi yn ddyfais mewn gwirionedd lle mae'r rhai sydd am weld camau'n cael eu cymryd yn erbyn tlodi yn ceisio perswadio, drwy wahanol ddulliau, y rhai sy'n gallu cymryd camau i wneud hynny. Y mwyaf clir y mae penseiri darpar strategaeth yn deall hynny, y mwyaf tebygol y bydd y strategaeth yn effeithiol.

Fodd bynnag, mae'n amlwg na all hyn olygu na ddylai'r rhai sydd am weld gweithredu ar dlodi wynebu unrhyw gyfyngiadau. Mae tair o'r nodweddion a nodwyd yn gynharach fel nodweddion strategaeth dda hefyd yn rhesymau da i'r rhai sy'n gallu gweithredu ar dlodi herio'r rhai sydd am weld camau'n cael eu cymryd. Un yw blaenoriaeth: gydag adnoddau cyfyngedig (amser ac arbenigedd, nid arian yn unig), rhaid gwneud dewisiadau.

Ail un yw cydlynid: rhaid i gamau gweithredu fodloni nodau'r strategaeth. Trydydd un yw cynllunio: rhaid i gamau gweithredu fod wedi'u cynllunio'n dda ac ar y raddfa gywir. Darparu ymateb negyddol o safbwynt gweinyddu da yw rôl gweision sifil, asiantaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector a darparwyr gwasanaethau eraill. Yr her yw sicrhau bod ymateb negyddol yn adeiladol ac yn cael ei weld felly.

Mae hyn yn arwain at bwynt terfynol am effeithiolrwydd: os yw strategaethau'n ddyfeisiau ar gyfer perswadio, mae pwysau a gwrthbwysau yn endemig a rhaid darparu ar eu cyfer yn hytrach na'u hatal. Rhaid i strategaeth gwrthdlodi effeithiol, a'r broses sy'n ei chreu, gynnwys a chaniatáu tensiwn. Heb densiwn, ni all strategaeth fod yn effeithiol.

4. Nodweddion strategaeth gwrthdlodi effeithiol

Mae'r bennod olaf hon yn dwyn ynghyd nodweddion strategaeth dda, gyda'n casgliadau am rôl y strategaeth ei hun, er mwyn nodi ein meini prawf ar gyfer strategaeth effeithiol. Yr hyn sy'n allweddol yma yw'r ddealltwriaeth a gawsom o ddiben strategaeth ei hun. Yn ei hanfod, gwelwn mai ei gwaith yw dod â dau rym at ei gilydd: ar y naill law, mae'r rhai sydd am weld camau'n cael eu cymryd ar dlodi ac ar y llaw arall, y rhai sy'n gallu gweithredu ar dlodi ond y mae eu hadnoddau ar gyfer gwneud hynny – ariannol a dynol – yn gyfyngedig, fel erioed.

Felly, mae strategaeth gwrthdlodi effeithiol yn un sy'n galluogi'r ddau rym i ffynnu ac ymgysylltu â'i gilydd yn adeiladol.

Rhestr wirio effeithiolrwydd

Yn erbyn y cefndir hwn, awgrymw'n y rhestr wirio ganlynol o saith nodwedd y mae angen i strategaeth gwrthdlodi eu cael os yw am fod yn effeithiol. Bwriedir i'r rhestr wirio hon fod o ddefnydd i'r rhai sy'n ymwneud â datblygu strategaeth gwrthdlodi. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i strategaeth o'r fath:

1. Gael ei deall fel fframwaith sy'n rhoi modd i'r rhai sydd am gymryd camau ar dlodi alluogi neu orfodi'r rhai sy'n gallu cymryd camau i wneud hynny.
2. Egluro beth y mae'n anelu at ei gyflawni a dim ond yn cynnwys camau gweithredu sy'n gwasanaethu'r perwyl hwnnw. Nid yw camau eraill yn erbyn tlodi yn flaenoriaeth ac felly mae'n rhaid eu heithrio.
3. Cydnabod, hyd nes y bydd menter gwrthdlodi wedi cael amser i ymgartrefu, mai ei chynllunio a'i gweithredu yw'r hyn sydd bwysicaf.
4. Cydnabod bod cynllunio a gweithredu effeithiol yn gofyn am ddealltwriaeth, cydlynw ac adnoddau da.
5. Cydnabod bod gwneud i rywbeth ddigwydd yn werthfawr ynddo'i hun ac yn fesur, yn y lle cyntaf, o effeithiolrwydd strategaeth.
6. Gallu dysgu wrth iddi fynd yn ei blaen, gyda mesurau canlyniadau – yr effaith ar bobl eu hunain – yn chwarae rhan gynyddol yn hyn, fel mesur yn yr achos olaf o werth strategaeth.
7. Bod yn gyfrifoldeb i weinidog sydd â digon o statws i sicrhau bod y strategaeth yn cael ei rhoi ar waith. Os oes angen gweithredu gan fwy nag un adran, y dybiaeth yw mai'r gweinidog hwn yw'r prif weinidog.



O'r tu allan – ein safbwynt ni ar y pum astudiaeth achos – a chyda'r dasg symlach o ffurfio barn ynghylch a yw strategaeth gwrthdlodi yn debygol o fod yn effeithiol, efallai y bydd atebion i rai cwestiynau bras yn ddigon i ddod i gasgliad. Yn gyntaf, a yw'r strategaeth 'go iawn' – ar gyfer gweithredu, nid dyhead yn unig? Mae'r ffaith y gallai strategaeth gwrthdlodi fod 'i dynnu sylw' yn unig yn bryder a nodwyd yn adolygiad 2014 o strategaethau tlodi rhyngwladol.

Yn ail, a yw'r camau y mae wedi arwain atynt wedi'u cynllunio a'u gweithredu'n dda? Mae hyn yn bryder ynghylch strategaethau yn gyffredinol ac mae nodweddion strategaeth dda a awgrymwyd gan Swyddfa'r Cabinet ac astudiaethau PPIW yn ceisio bodloni'r pryder hwn. Yn drydydd, a oes tensiwn amlwg i'r strategaeth, rhwng yr ymgyrch dros weithredu a'r mynnu bod camau'n cael eu cymryd yn dda? Heb y tensiwn hwn (tarddiad ei hegni), mae strategaeth gwrthdlodi yn colli grym ac ystyr.

Sylwadau terfynol

Mae gennym dri sylw terfynol. Yn gyntaf, mae'r farn hon am effeithiolrwydd yn adlewyrchu bod barn am strategaethau yn un sy'n ymwneud â gweithredu a'r hyn y mae'n rhaid ei ystyried a'i wneud i wneud iddi ddigwydd. Yn y farn hon, gall strategaeth fod yn effeithiol oherwydd ei bod wedi gwneud i rywbeth ddigwydd, hyd yn oed os yw'r effaith yn brin o'r hyn y gobeithiwyd amdano neu a fwriadwyd. Mae sawl cyfiawnhad i'r pwyslais hwn ar weithredu yn hytrach na'r canlyniadau y mae'n arwain atynt yn y pen draw:

- Rhybuddio yn erbyn unrhyw dybiaeth bod gweithredu ar bwnc mor gymhleth â thlodi yn syml;
- Rhaid cymryd camau cyn bod hyd yn oed asesiad rhagarweiniol o'r canlyniadau yn bosibl, ac yn aml ymhell cyn hynny; ac

- Er canlyniadau yw'r mesur amlwg o werth cyffredinol strategaeth ar gyfer ymchwilwyr, gweithwyr polisi proffesiynol, economegwyr ac yn y blaen, mae gweithredu ynddo'i hun ('gwneud rhywbeth') yn cymeradwyo ei hun i wleidyddion – dylid nodi y gwnaethpwyd y pwynt hwn i ni gan un o'r arbenigwyr strategaeth yr ymgynghorwyd â hwy.


Yn ail, nid ydym wedi canfod bod y diffiniad o dlodi yn fater sy'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd strategaeth.

I'r gwrthwyneb, mae lle i anghytuno ynghylch sut y caiff tlodi ei fesur – incwm isel yn unig, ac os felly ar ba drothwy, a/neu amddifadedd materol – ond mae'r anghytundebau hyn yn canolbwyntio ac yn cael eu cyfyngu gan y data sydd ar gael. Mae nodweddion unigol ac aelwydydd y rhai mewn tlodi yng Nghymru a ledled y DU wedi cael eu dadansoddi'n ddwys ers blynyddoedd lawer.

Mae'r cwestiwn ynghylch beth yn union a olygir wrth dlodi yn codi mewn perthynas â nodau strategaeth, p'un ai i leihau tlodi (nifer y bobl sy'n ei brofi), lleddfu tlodi (gwella eu sefyllfa ariannol a/neu faterol p'un a ydynt yn 'dianc' rhagddo ai peidio), neu fynd i'r afael ag unrhyw un o'r problemau y mae'r rhai mewn tlodi yn fwy tebygol o'u hwynebu (er enghraifft, gydag iechyd neu addysg). Mae'r pum strategaeth a astudir yma yn adlewyrchu amrywiaeth o atebion i'r cwestiwn hwnnw. Nid pa ystyr i'w dewis yw'r mater, ond yn hytrach y cydlynid rhwng nodau datganedig y strategaeth, y camau gweithredu ynddi a'r mesur a ddewisir – yn ogystal â'r blaenoriaethu angenrheidiol wrth gwrs.

Yn olaf, a oes angen strategaeth gwrthdlodi ar Gymru hyd yn oed er mwyn gweithredu yn erbyn tlodi? Mae hwn yn gwestiwn da, y gallai'r ateb iddo'n bendant fod yn 'nac oes'. Mae'r cyntaf o'n saith nodwedd yn allweddol yma, a rôl strategaeth yw cysylltu'r rhai sydd am gymryd camau gyda'r rhai sy'n gallu cymryd y camau hynny. Os nad yw'r bwllch hwnnw'n bodoli, yna nid oes angen strategaeth i'w bontio. Pan gyhoeddodd llywodraeth y DU ym 1999 y byddai'n dod â thlodi plant i ben mewn 20 mlynedd gan ddefnyddio credydau treth sy'n gysylltiedig ag economi sy'n tyfu'n gyson i wneud hynny, ni chyhoeddodd (hyd y cofiwn ninnau) strategaeth. Yn hytrach, gyda Changhellor y Trysorlys yn sbardun gwleidyddol, gallai adael i'r Trysorlys fwrw ymlaen ag ef.

Er bod hwn yn sicr yn achos arbennig, nid oes rheswm dros feddwl ei fod yn unigryw. Mae'n ddigon posibl mai penderfyniad Llywodraeth Cymru i dalu £19.50 yr wythnos i deulu pob plentyn â hawl i brydau ysgol am ddim yn ystod y pandemig yw'r un mesur gwrthdlodi mwyaf a gymerwyd yng Nghymru mewn 20 mlynedd. Wedi'i chyfnerthu gan fandad etholiadol newydd, gall Llywodraeth newydd Cymru weithredu ar dlodi lle y gall, a chyflwyno strategaeth lle mae angen cynghreiriaid neu lle y gellid disgwyl gwrthwynebiad. Os yw'r Llywodraeth newydd am weithredu ar dai, addysg, iechyd, trafniadaeth, bydd angen eraill arni i weithredu ar ei rhan.



Cyfeiriadau

Aldridge, H. (2017). **How do we measure poverty?** Maytree Foundation. Wedi'i adfer o: <https://maytree.com/publications/how-do-we-measure-poverty/>

Swyddfa'r Cabinet. (2004). **Strategy Survival Guide Overview.** Wedi'i adfer o: <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20031220221857/http://cabinetoffice.gov.uk/strategy/survivalguide/index.asp>

Castilla-La Mancha. (2017). **Estrategia Contra La Pobreza Y La Desigualdad Social De Castilla-La Mancha.** Wedi'i adfer o: https://www.castillalamancha.es/sites/default/files/documentos/pdf/20171024/estrategia_contra_la_pobreza_clm_2017-2020.pdf

Castilla-La Mancha. (2019). **Estrategia Contra La Pobreza Y La Desigualdad Social De Castilla-La Mancha: Jornada de Evaluacion.**

Comisiynydd Plant. (2012). **Solutions to child poverty in New Zealand: Evidence for action.** Wedi'i adfer o: <https://www.occ.org.nz/assets/Uploads/EAG/Final-report/Final-report-Solutions-to-child-poverty-evidence-for-action.pdf>

Dinas Toronto. (2018). **2018 Poverty Reduction.** Wedi'i adfer o: <https://www.toronto.ca/city-government/council/2018-council-issue-notes/poverty-reduction/>

Dinas Toronto. (2021). **Lived Experience Advisory Group – Poverty Reduction Strategy.** Wedi'i adfer o: <https://www.toronto.ca/city-government/accountability-operations-customer-service/long-term-vision-plans-and-strategies/poverty-reduction-strategy/lived-experience-advisory-poverty-reduction/>

Congreve, E. (2020). **Are we making progress on child poverty?** Wedi'i adfer o: <https://fraserofallander.org/are-we-making-progress-on-child-poverty/>

Cowan, N. (2020). **Our Lives, Our Solutions: The Annual Report of the get heard Scotland Project 2019/2020.** The Poverty Alliance. Wedi'i adfer o: <https://www.povertyalliance.org/wp-content/uploads/2020/05/Our-Lives-Our-Solutions-Get-Heard-Scotland-annual-report-19-20.pdf>

Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet. (2019a). **Have Your Say: Summary Report.** Wedi'i adfer o: <https://dpmc.govt.nz/publications/summary-report-national-engagement-child-and-youth-wellbeing>

Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet. (2019b). **Maori Engagement: Summary Report.** Wedi'i adfer o: <https://childyouthwellbeing.govt.nz/sites/default/files/2019-08/maori-engagement-summary-report-cyw.pdf>

EAPN-CLM. (2020). **Participacion.** Wedi'i adfer o: <https://participa.eapn-clm.org/grupo-de-trabajo/>

FaFo B-W. (Familien Forschung Baden-Württemberg) im Statistischen Landesamt. (2015). **Erster Armuts- und Reichtumsbericht Baden-Württemberg.** Wedi'i adfer o: https://sozialministerium.baden-wuerttemberg.de/fileadmin/redaktion/m-sm/intern/downloads/Anhang_PM/Armuts_und_Reichtumsbericht_25_11_2015.pdf

FaFo B-W (Familien Forschung Baden-Württemberg) im Statistischen Landesamt. (2020). **Bilanzierung – Strategien gegen Armut – Präventionsnetzwerke gegen Kinderarmut und für Kindergesundheit.** Wedi'i adfer o: https://www.starkekinder-bw.de/fileadmin/user_upload/Strategien_gegen_Armut_Praeventionsnetzwerke_korrigiert.pdf

Gesellschaftsmonitoring B-W (Baden-Württemberg). (2020). **Armut und Reichtum, Basisinformationen**. Wedi'i adfer o: https://www.gesellschaftsmonitoring-bw.de/wp-content/uploads/2020/08/Basisinformationen_2020_1_Armut-und-Reichtum.pdf

Households Below Average Income. (2021). **Data tables**. Yr Adran Gwaith a Phensiynau. Wedi'i adfer o: <https://www.gov.uk/government/statistics/households-below-average-income-for-financial-years-ending-1995-to-2020>

MacInnes, T., Bushe, S., Kelly, P., a McHardy, F. (2014). **International and historical anti-poverty strategies: evidence and policy review**. Sefydliad Polisi Newydd. Wedi'i adfer o: <https://www.npi.org.uk/publications/income-and-poverty/international-and-historical-anti-poverty-strategies-evidenc/>

Oranga Tamariki a'r Comisiynydd Plant. (2019). **What makes a good life? Children and young people's views on wellbeing**. Wedi'i adfer o: <https://www.occ.org.nz/assets/Uploads/What-makes-a-good-life-report-OCC-OT-2019-WEB2.pdf>

Swyddfa'r Cyngor Seneddol. (2018). **Child Poverty Reduction Act 2018: Primary provisions**. Wedi'i adfer o: <https://www.legislation.govt.nz/act/public/2018/0057/18.0/LMS8298.html>

Poverty Reduction Strategy Office. (2019). **Lived Experience Advisory Group**. Wedi'i adfer o: https://www.toronto.ca/wp-content/uploads/2019/10/9827-LEAG19_nominations-form_final.pdf

Sefydliad Polisiâu Cyhoeddus Cymru. (2016). **What makes a good government strategy?**

Sarlo, C. (2020). **A Critical Assessment of Canada's Official Poverty Line**. Fraser Institute. Wedi'i adfer o: <https://www.fraserinstitute.org/sites/default/files/critical-assessment-of-canadas-official-poverty-line.pdf>

Llywodraeth yr Alban. (2018). **Every child, every chance: The Tackling Child Poverty Deliver Plan 2018-22**. Wedi'i adfer o: <https://www.gov.scot/publications/child-chance-tackling-child-poverty-delivery-plan-2018-22/>

Llywodraeth yr Alban. (2020). **Taking Child Poverty Delivery Plan: Second year progress report 2019/20**. Wedi'i adfer o: <https://www.gov.scot/publications/tackling-child-poverty-delivery-plan-second-year-progress-report-2019-20/>

Shaffer, P. a Tranjan, R. (2019). **What to Expect from Toronto's Poverty Reduction Strategy: Lessons from the Global South**. Canadian Public Policy.

Taylor Newberry Consulting. (2019). **Transit Fare Equity Program: Phase 1 Evaluation Report**. Poverty Reduction Strategy Office. Wedi'i adfer o: <https://www.toronto.ca/legdocs/mmis/2019/ex/bgrd/backgroundfile-139482.pdf>

UNDP. (2020). **Human Development Index**. Wedi'i adfer o: <http://hdr.undp.org/en/indicators/137506#>

UNICEF. (2020). **Innocenti Report Card 16. Worlds of Influence: Understanding what shapes child well-being in rich countries**. UNICEF

Atodiad 1: Rôl pobl sydd â phrofiad byw o dlodi

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y rôl a chwaraeir gan bobl sydd â phrofiad byw o dlodi mewn pedair o'r pum strategaeth. Nid oedd rôl pobl â phrofiad byw o dlodi yn destun yr ymchwil wreiddiol. Mae'r deunydd a gynhwysir yma felly'n adlewyrchu'r hyn a gasglwyd eisoes fel sgil-gynnyrch yn ystod y cyfnod ymchwil. Mae'r atodiad hwn hefyd wedi elwa ar sgwrs gan rywun sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r dasg o alluogi pobl sydd â phrofiad byw i gyfrannu at ddatblygu strategaeth tldodi. Fodd bynnag, ni thrafodwyd y pwnc gyda'r arbenigwyr strategaeth unigol.

Rydym yn adrodd ar bedair strategaeth – rhai Castilla La Mancha, Toronto, yr Alban a Seland Newydd. Ni ddylid cymryd absenoldeb tystiolaeth o gyfranogiad yn Baden-Württemberg fel tystiolaeth o absenoldeb cyfranogiad. Mae'r un sylw'n berthnasol i'r pedwar arall hefyd: ni ellir tynnu unrhyw gasgliadau am y strategaethau hynny o'r hyn *nad* yw'n cael ei ddweud yma.

Castilla La Mancha

Roedd sefydliadau aelod EAPN-CLM yn ymwneud â chreu strategaeth CTM ond mae prinder tystiolaeth glir o gyfranogiad pobl â phrofiad byw o dlodi yn y broses honno.

Mae gan EAPN-CLM gyfres o Weithgorau (Grupos de Trabajo), a ffurfiwyd gan bobl sydd â phrofiad byw o dlodi, sy'n cyfarfod yn fisol i greu cynigion i'w cyflwyno i grwpiau gwleidyddol ac endidau cymdeithasol (EAPN-CLM, 2020).

Cymerodd EAPN-CLM ran yng Nghyfarfod y Llywodraeth Agored (Consejo del Gobierno abierto) yn 2016 a ddisgrifir fel un sydd wedi sbarduno creu'r strategaeth, ond ni sonnir pa endidau penodol oedd yn cymryd rhan neu a oedd unrhyw un o'r Gweithgorau hyn yn bresennol (Castilla-La Mancha, 2017).

Yn ôl gwefan EAPN-CLM, mae'r Gweithgor yn cael ei 'ffurfio gan bobl sydd â phrofiad byw o dlodi neu sydd mewn perygl o dlodi ac allgáu cymdeithasol. Ei brif amcan yw gweithio ar gynnwys profiadau buddiolwyr prosiectau cymdeithasol a hyrwyddo creu manau lle gall pobl sydd â phrofiad byw o dlodi arfer eu hawliau'. Mae cyfarfodydd misol, wedi'u cymedroli gan aelod o staff EAPN-CLM, yn 'creu cynigion i'w cyflwyno i grwpiau gwleidyddol ac endidau cymdeithasol' (EAPN-CLM, 2020). Nid yw'n glir sut y gallai unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r strategaeth gael eu datblygu.

Yn 2018, cydgysylltodd EAPN-CLM werthusiad o 108 o ymyriadau cymdeithasol ar draws y rhanbarth gan ei fuddiolwyr a'i ddefnyddwyr. Darparwyd yr ymyriadau gan y System Gyhoeddus o Wasanaethau Cymdeithasol. Mae'n ymddangos yn debygol y byddai rhai o'r gwasanaethau hyn yn dod o dan 58 pwynt gweithredu strategaeth gwrthdlodi CLM.

Yn ogystal, roedd tua 90 o bobl sy'n gweithio yn y sefydliadau cymdeithasol a'r gweinyddiaethau cyhoeddus a oedd yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth yn rhan o'i gwerthusiad, gan ddarparu tystiolaeth ansoddol ac argymhellion ar gyfer diwygiadau iddi wrth symud ymlaen, mewn cyfarfod cyhoeddus yn 2019 (Castilla-La Mancha, 2019).

I grynhoi, er bod prinder tystiolaeth ar gyfer cymryd rhan mewn adegau penodol yn y broses strategaeth, mae bodolaeth Gweithgor (neu Grwpiau) EAPN-CLM ynghyd â rôl ganolog barhaus EAPN-CLM yn y strategaeth yn cyfuno i awgrymu bod cyfranogiad o'r fath yn anuniongyrchol, drwy EAPN-CLM ac wedi'i gyfryngu ganddo.

Toronto

Fel Castilla La Mancha, nid yw'n glir a oedd pobl â phrofiad byw o dlodi yn ymwneud yn benodol neu'n fwriadol â datblygu Strategaeth Lleihau Tlodi Toronto (TPRS) yn 2015. Yr hyn sy'n glir, fodd bynnag, yw bod Cyngor y Ddinas, yn 2017, wedi creu Grŵp Cynghori ar Brofiad Byw (LEAG) ar gyfer y TPRS, a ffurfiwyd o 17 o bobl. Bu'r grŵp hwn yn gwasanaethu tan 2020. Er bod tystiolaeth glir hefyd bod y broses o benodi LEAG olynol, i redeg hyd at 2023, wedi dechrau ar ddiwedd 2019, nid yw'n glir a yw'r broses honno wedi'i chwblhau.

Rôl (LEAG) yw caniatáu i'w aelodau ddefnyddio eu profiad personol i 'lywio datblygiad, gweithrediad a monitro effeithiol' y TPRS. Mae pobl yn gwneud cais i berthyn i'r Grŵp, gan ddefnyddio ffurflen gais agored (Swyddfa Strategaeth Lleihau Tlodi, 2019); ac yna dewisir aelodau i ddarparu cymysgedd o bobl sydd rhyngddynt yn adlewyrchu 'cynrychiolaeth dda o grwpiau sy'n ceisio tegwch' a hefyd yn meddu ar brofiad o amrywiaeth o raglenni, materion a systemau perthnasol (Dinas Toronto, 2021).

I'r rhai sy'n gwneud cais i fod yn aelodau yn 2019, disgrifiwyd bod blaenoriaethau'r Grŵp yn cynnwys: eiriolaeth (adborth ar bolisiau, rhaglenni a gwasanaethau); gweithredu fel cyfrwng rhwng cymunedau a'r Ddinas; hyrwyddo ymwybyddiaeth (yn allanol ac yn fewnol, i staff y cyngor) am realiti tlodi; a chymryd rhan mewn monitro a gwerthuso'r TPRS.

I grynhoi, mae'n amlwg bod rôl y LeaG yn y TPRS yn un uniongyrchol, yn hytrach nag un wedi'i chyfryngu gan sefydliad gwrthdlodi arall. Yr hyn nad yw'n glir yw pa mor fawr yw'r rôl y mae'r LEAG, sy'n cyfarfod yn fisol, yn ei chwarae'n ymarferol, neu faint o ymreolaeth (er enghraifft, dros y materion y mae'n eu hystyried) sydd ganddo.

Yr Alban

Yn wahanol i CLM a Toronto, roedd gan bobl â phrofiad byw o dlodi rywfaint o fewnbwn i ddatblygu strategaeth yr Alban, o leiaf i'r graddau mai neges glir o sgwrs *Fairer Scotland* oedd nad yw tlodi plant mewn gwlad gyfoethog yn dderbyniol. Roedd cyflwyno'r Mesur Tlodi Plant gan Lywodraeth yr Alban yn ymateb yn rhannol.

Ymgynghorwyd ar hyn, ond ni nodir yn y dogfennau a adolygwyd i ba raddau yr oedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys lleisiau'r rhai â phrofiad byw o dlodi.

Mae'r Ddeddf Tlodi Plant yn nodi amrywiaeth o ofynion sy'n ymwneud â'r Cynlluniau Cyflawni Tlodi Plant, sy'n cynnwys ymgynghori â phobl sydd â phrofiad byw mewn dwy ffordd. Mae'r cyntaf yn anuniongyrchol. Mae rhestr hir o randdeiliaid y mae'n rhaid ymgynghori â hwy wrth baratoi cynllun cyflawni gan gynnwys sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd neu'n eu cynrychioli (llywodraeth yr Alban, 2018, gweler Atodiad 1). Mae'r ail yn uniongyrchol, drwy'r gofyniad i ymgynghori â phobl o'r fath sydd â phrofiad o fyw mewn tlodi ac unrhyw bobl eraill y mae [Gweinidogion yr Alban] yn eu hystyried yn briodol (llywodraeth yr Alban, 2018, t.149). Ar gyfer y cynllun presennol, cafodd 11 o grwpiau rhieni eu cynnull gan wahanol sefydliadau, megis y Comisiwn Gwirionedd Tlodi a Fife Gingerbread.

Cafodd dau grŵp o bobl ifanc eu cynnull, un yr un gan Young Scot ac Ymddiriedolaeth y Tywysog, a chafodd chwe grŵp trafod gyda phlant eu cynnull gan Senedd y Plant (Ilywodraeth yr Alban, 2018, gweler Atodiad 1).

Roedd cytundeb ariannu hefyd gyda'r Gynghair Tlodi i redeg rhaglen o'r enw 'Get Heard Scotland'. Daeth hyn â phobl â phrofiad ynghyd â llunwyr polisi ac Ysgrifenyddion y Cabinet, ochr yn ochr â sefydliadau llawr gwlad a sefydliadau'r trydydd sector. Roedd yr adroddiad blynyddol cyntaf, ar gyfer 2019/2020, yn seiliedig ar 37 o drafodaethau cymunedol mewn pum ardal awdurdod lleol ac roedd yn cynnwys tystiolaeth am yr hyn a oedd ac nad oedd yn gweithio i fynd i'r afael â thlodi ar lefel genedlaethol a lleol (Cowan, 2020).

I grynhoi, ymgynghorwyd yn uniongyrchol ag oedolion a phlant â phrofiad byw o dlodi wrth ddatblygu'r cynllun cyflawni. Mae mecanweithiau ar waith hefyd er mwyn i ymgynghori barhau wrth i gamau gweithredu gael eu cyflwyno. Nid yw'n bosibl dweud o'r adolygiad byr hwn faint o bolisiau sydd wedi'u cynllunio gyda'r safbwyntiau hyn mewn golwg.

Seland Newydd

Ymgynghorwyd yn eang ar Strategaeth Lles Plant a Phobl Ifanc Seland Newydd, ac roedd hyn yn cynnwys ffocws ar farn plant a phobl ifanc yn eu meysydd blaenoriaeth (gweler pennod 2). Casglodd y llywodraeth farn 10,000 o bobl Seland Newydd, gan gynnwys 6,000 o blant a phobl ifanc, wrth ddatblygu'r strategaeth. Roedd ymgysylltu â'r cyhoedd i brofi canlyniadau drafft a cheisio mewnbwn i ddatblygu'r Strategaeth Lles yn cynnwys cyfarfodydd, grwpiau ffocws, arolygon plant ac oedolion a cherdyn post i'r Prif Weinidog. Mae cyflwyniadau ysgrifenedig ac adroddiad ar yr ymgysylltu cenedlaethol ar gael (Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet, 2019a).

Mae deddfwriaeth (nid y Ddeddf cyn y ddeddfwriaeth) yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â chynrychiolwyr Māori, a chyda phlant a phobl ifanc, fel rhan o ddatblygu'r Strategaeth Lles.

Roedd yr ymgysylltu â'r gymuned Māori drwy weithdai cymunedol (Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet, 2019b). Cynhaliwyd y rhai â phlant a phobl ifanc gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant ac Oranga Tamariki (y Weinyddiaeth Plant) ac fe'u cyhoeddir hefyd mewn adroddiad. Roedd hwn yn gymysgedd o arolwg ar-lein, cyfweiliadau wyneb yn wyneb a grwpiau ffocws. Defnyddiwyd y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws i gael barn plant a phobl ifanc y credwyd eu bod yn wynebu heriau yn eu bywydau. Roedd hyn yn cynnwys y rhai sy'n byw mewn tlodi, yng ngofal y wladwriaeth, gydag anabledd, o ardaloedd gwledig, gyda chefnidiroedd ffoaduriaid, sy'n nodi eu bod yn LGBTIQ+, neu sydd wedi cael diagnosis iechyd meddwl (Oranga Tamariki a'r Comisiynydd Plant, 2019).

Mae hefyd yn bosibl cael ymdeimlad yn Seland Newydd o sut y defnyddiwyd y dystiolaeth a gasglwyd. Y rheswm am hyn yw bod gan y Strategaeth Lles Plant a Phobl Ifanc grynodedd o ganfyddiadau allweddol sy'n ymwneud â phob un o'i meysydd. Mae'r Strategaeth hefyd yn cynnwys dolenni i'r adroddiadau a gynhyrchwyd ar sail y dystiolaeth hon. Os yw llywodraethau eraill wedi cynhyrchu adroddiadau tebyg, ni thrafodwyd na chyfeiriwyd at y rhain yn y strategaeth na'r cynlluniau gweithredu.

Casgliad


Wrth feddwl am yr hyn a allai fod yn gyfraniad 'effeithiol' gan bobl sydd â phrofiad byw o dlodi, rydym yn cynnig tri chwestiwn i'w hystyried.

Yn gyntaf, gall pobl sydd â phrofiad byw gael y cyfle i siarad, ond i ba raddau y mae hyn yn cael ei ystyried wrth i gynlluniau gael eu datblygu a phenderfyniadau gael eu gwneud?

Yn benodol, ble mae'r strwythurau sy'n galluogi cyfranogiad, boed yn uniongyrchol (fel grŵp cynghori), neu'n anuniongyrchol (drwy gyfryngwyr), yn arwain? A ydynt yn sianeli ar gyfer cyfathrebu neu'n bengaead?

Yn ail, mae amser yn hanfodol, o ran pryd yn y broses y mae pobl â phrofiad byw yn cymryd rhan ac a oes digon o amser i ganiatáu i gyfranogiad ddatblygu mewn ffordd adeiladol. Yn benodol, a oes digon o amser i ganiatáu myfyrion a deialog, neu a yw cyfranogiad ymarferol yn ddim mwy na chyfle untro i fynegi barn? Byddai ein casgliadau ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â strategaeth effeithiol yn awgrymu'r cyntaf.

Yn drydydd, pa fath o wybodaeth a mewnwelediad y mae llywodraeth yn ceisio'u cael gan bobl sydd â phrofiad byw o dlodi? Yn ein barn ni, yng nghyfranogiad pobl sydd â phrofiad uniongyrchol, dylid canolbwyntio ar fanylion cynlluniau a chynigion, nid am fod y 'pethau bychain' hyn yn ddibwys ond oherwydd, fel 'pryderon sylfaenol bywyd', maent yn hollbwysig.⁹ Mae pobl sydd â phrofiad byw yn arbenigwyr, ac o'r herwydd, maent ymhlith y rhai sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod camau gwrthdlodi wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u gweithredu'n dda.



⁹ Er enghraifft, nid oedd dim yn bwysicach pan gyflwynwyd credydau treth plant 20 mlynedd yn ôl na'r 'manylion' na ddylai'r arian fynd i'r boced ond i'r pwrs.

Atodiad 2: Dogfennau yr ymgynghorwyd â nhw

Canada (Toronto)	
Dogfen strategaeth	<u>To Prosperity: Toronto Poverty Reduction Strategy, 2015-2035, 2015</u>
Cynllun gweithredu	<u>Toronto Poverty Reduction Strategy: 2019-2022 Action Plan, Oct 2019</u>
Cynllun gwaith	<u>2019-2022 Poverty Reduction Strategy Work Plan</u>
Adroddiad cynnydd y Llywodraeth	<u>TO Prosperity: Toronto Poverty Reduction Strategy -2016 Progress Report and 2017 Work Plan, Nov 2016</u>
Adroddiad cynnydd cymunedol 1	<u>Toronto Poverty Reduction Strategy, Year 1 Report to Community, 2016</u>
Adroddiad cynnydd y Llywodraeth	<u>TO Prosperity: Toronto Poverty Reduction Strategy 2017 Report and 2018 Work Plan, Nov 2017</u>
Adroddiad cynnydd cymunedol 2	<u>Toronto Poverty Reduction Strategy, 2017 Report to Community</u>
Monitro	<u>Toronto Poverty Reduction Strategy Monitoring and Evaluation Framework</u>
Ymchwil annibynnol	<u>What to Expect from Toronto's Poverty Reduction Strategy: Lessons from the Global South, 2019</u>

Yr Almaen (Baden-Württemberg)	
Strategaeth	<u>Die Strategie des Ministeriums: Starke Kinder Chancenreich</u>
Gwerthuso Rhwydwaith	<u>Bilanzierung: Strategien gegen Armut – Präventionsnetzwerke gegen Kinderarmut und für Kindergesundheit</u>
Cefndir ystadegol	<u>Poverty in Baden-Württemberg</u>

Sbaen (Castilla La Mancha)	
Strategaeth	<u>Estrategia contra la pobreza, 2017-2020</u>
Cynllun Gweithredu	<u>Plan Integral – De Garantias Ciudadanas de Castilla-La Mancha</u>
Adroddiad Monitro	<u>Estrategia contra la Pobreza y la Desigualdad Social de Castilla-La Mancha</u>
Adroddiad/adolygiad annibynnol	<u>Red de inclusion social – Pilotos de integration socio-laboral</u>

Seland Newydd	
Strategaeth	<u>Child Poverty Reduction Act 2018</u>
Strategaeth Lles Plant ac Ieuenctid	<u>Strategaeth Lles Plant ac Ieuenctid</u>
Cynllun Gweithredu	<u>Child Poverty, measures, targets and indicators, DPMC</u>
Adolygiad y Llywodraeth	<u>Wellbeing Budget 2020, Child Poverty Report</u>
Adolygiad Annibynnol	<u>18,400 children lifted out of poverty</u>
Adolygiad Annibynnol	<u>Child Poverty Monitor 2020, Technical Report, NZCYES and University of Otago</u>

Yr Alban	
Strategaeth	<u>Child Poverty (Scotland) Act 2017: an overview</u>
Cynllun Gweithredu	<u>Every child, every chance. The Tackling Child Poverty Delivery Plan 2018-22, The Scottish Government</u>
Canllawiau'r Cynllun Gweithredu	<u>Developing A Local Child Poverty Action Report: Guidance</u>
Adolygiad y Llywodraeth	<u>Every child, every chance. The Tackling Child Poverty Delivery Plan First year progress report 2018-19</u>
Adolygiad y Llywodraeth	<u>Every child, every chance. The Tackling Child Poverty Delivery Plan Second year progress report 2019-20</u>
Adolygiad Annibynnol	<u>Child Poverty Delivery Plan progress: Scrutiny by the Poverty and Inequality Commission</u>

Diolchiadau


Mae'r adroddiad hwn wedi dibynnu'n drwm ar y doethineb a'r mewnwelediad a gynigiwyd i ni gan yr arbenigwyr ar y pum strategaeth, a roes i ni o'u hamser ar fyr rybudd. Ni fyddai'r adroddiad wedi bod yn bosibl hebddynt a diolchwn iddynt yn briodol. Dyma nhw: Leticia Henar (Fresno Consulting) ar gyfer Castilla La Mancha; Ricardo Tranjan (The Canadian Centre for Policy Alternatives) ar gyfer Toronto; Holger Hoffmann (Diakonie-Baden) ar gyfer Baden Württemberg; Kristie Carter (Uned Tlodi Plant, Ilywodraeth Seland Newydd) ar gyfer Seland Newydd; a Stephen Sinclair (Uned Ymchwil Tlodi ac Anghydraddoldeb yr Alban, Prifysgol Glasgow Caledonian) ar gyfer yr Scotland. Fel y pwysleisiwn yn yr adroddiad, mae'r farn y bu angen ei rhoi weithiau am y strategaethau, waeth pa mor anuniongyrchol, yn perthyn iddynt hwy, nid i ni.

Hoffem ddiolch hefyd i'r Athro Katrin Toens (Evangelische Hochschule, Freiburg) ac Alan Sitkin (Prifysgol Regent Llundain) a'n helpodd gyda Baden-Württemberg; Hannah Aldridge (sydd bellach yn y Grŵp Gweithredu Tlodi Plant) a'n helpodd gyda Toronto; a Peter Kelly (Cynghrair Tlodi) a helpodd yn uniongyrchol gyda'r Alban ac a'n cyfeiriodd at arbenigwyr yn Sbaen a'r Almaen.

Hoffem ddiolch hefyd i'r rhai sydd wedi adolygu a gwneud sylwadau ar ddrafftiau o'r adroddiad hwn, gan gynnwys Peter eto, yn ogystal â Victoria Winckler (Sefydliad Bevan), Rod Hick (Prifysgol Caerdydd), a Bianca Albers (Y Ganolfan Dystiolaeth a Gweithredu).

Yn olaf, hoffem ddiolch i Amanda Hill-Dixon, Manon Roberts a Dan Bristow o Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru am eu cyngor a'u cefnogaeth drwyddi draw.

Yr awduron yn unig sy'n gyfrifol am gywirdeb yr adroddiad hwn, gan gynnwys unrhyw wallau neu gamddealltwriaeth.



Awduron Yr Adroddiad

Peter Kenway yw cyfarwyddwr a chyd-sylfaenydd y Sefydliad Polisi Newydd ac mae wedi arwain ei waith ar dlodi ac allgáu dros flynyddoedd lawer.

Mae **Carla Ayrton** yn uwch ymchwilydd yn yr NPI, sy'n arbenigo mewn dulliau meintiol ac ansoddol.

Mae **Charithra Chandran** yn ddadansoddwr ymchwil yn NPI.

Mae **Irene Tortajada** yn ymchwilydd polisi cymdeithasol annibynnol sydd wedi gweithio i'r Gynghair Tlodi yn flaenorol.


I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk







Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd
Sbarc/Spark
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ



www.wcpp.org.uk/cy



029 2087 5345



info@wcpp.org.uk



@WCfPP